disappeared. Where did that claim come from? Where do these facts come from? What we know is that wage levels in Wales have increased more than wage levels in the United Kingdom as a whole, and that wage levels in the Objective 1 area have increased more as a percentage than in the rest of Wales.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf wedi gwranddo'n astud ar ateb y Prif Weinidog, gan fy mod wedi'i herio, yn gyntaf, ar y record o ran mewnfuddsoddi, ac nid atebodd ar y pwynt hwnnw. Dywedais wrtho am y gostyngiad mewn swyddi gweithgynhyrchu ac nid atebodd ar y pwynt hwnnw ychwaith. Mae'n siarad yn ddi-ben-draw am nifer y swyddi a grëir, ond rhaid inni hefyd edrych ar ansawdd y swyddi hynny. Rhoddaf y ffigurau iddo ac yr wyf am iddo naill ai eu derbyn neu ddadlau yn eu herbyn. Mae lefelau incwm yng Nghymru 20 y cant yn is nag yn Lloegr a 10 y cant yn is nag yn yr Alban; a yw'r Prif Weinidog yn ymfalchïo yn hynny?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n newid llwyr oddi wrth y cwestiwn a ofynasoch yn flaenorol. Yr oeddech yn gofyn am lefel cyflogau mewn cwmnïau newydd o'u cymharu â chyflogau mewn cwmnïau sy'n gadael, ond yn awr yr ydych yn cyflwyno gosodiad hollol wahanol. Y peth pwysig yw gofyn a yw'r gorllewin a'r Cymoedd yn ennill tir o'u cymharu â gweddill y DU o ran lefelau cyflog. Yr ateb yw, 'Ydynt,' mae'r ffeithiau'n ddigon eglur ynglŷn â hynny. Mae lefelau cyflog wedi codi 23 y cant yn y gorllewin a'r Cymoedd o'u cymharu, fe gredaf, â 19 y cant yng ngweddill y DU ers 2001, pan osodwyd y seiliau ystadegol adeg y cyfrifiad diwethaf. Mae'n amlwg bod Cymru'n ennill tir o'i chymharu â'r DU a bod y gorllewin a'r Cymoedd yn ennill tir o'u cymharu â'r DU hyd yn oed yn gyflymach na Chymru'n gyffredinol. Dyna'r dasg yr ydym yma i'w chyflawni. Os oes bwlich hanesyddol o 20 y cant, ni allwch ddisgwyl iddo ddiflannu dros nos; dim ond iddo symud i'r cyfeiriad iawn. A ydyw'n symud i'r cyfeiriad iawn? Mae'r ffigurau'n dangos yn gwbl eglur ei fod.

Polisiâu Recriwtio (Gweithwyr Iechyd Proffesiynol)
Recruitment and Retention Policies (Health Professionals)

C4 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiâu recriwtio a chadw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol? OAQ1868(FM)

Y Prif Weinidog: Mae canran y swyddi sydd heb eu llenwi yn llawer is yn awr nag a oedd bum mlynedd yn ôl. Mae'r lefel tua'r un peth ar gyfer ymgynghorwyr yn y gwasanaeth iechyd, ond mae chwarter nifer y nyrsys a phobl mewn gyrfaedd eraill yn y GIG o'i gymharu â'r sefyllfa bum mlynedd yn ôl.

Rhodri Glyn Thomas: You will recall the official opening of the Children's Hospital of Wales by Catherine Zeta Jones and her husband, Michael Douglas. The first phase has now been completed and, obviously, staff have been recruited as a result of that first phase. Can you explain why the Government of Wales and the Minister for Health and Social Services is withholding £38.5 million for the second phase of that hospital, therefore delaying the process of moving forward with a hospital that has been built using mainly voluntary contributions from the people of Wales?

The First Minister: I mentioned the *chwedl* or fable that Ieuan Wyn Jones was trying to create about the economy, and you are doing the same with regard to phases 2 and 3 of the national hospital of Wales. We have received no bid from the trust on this. Commissioning decisions need to continue to be taken by the different commissioning bodies. There is no agreement about exactly what level of care will be purchased by the local health boards, so I ask you to read the record of what you said. I ask you to check with Cardiff and Vale NHS Trust whether it has made a bid to the Minister for health for £38 million. Then, I think that you will wish to withhold your accusation about withholding capital.

David Melding: There are some areas that lag behind, and the mental health service is one of them. We still need more psychiatrists, more general practitioners with a speciality in mental health, and specialist nurses. We need

Q4 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's recruitment and retention policies for health professionals? OAQ1868(FM)

The First Minister: The percentage of vacant posts is much lower now than it was five years ago. The level is around the same for consultants in the health service, but there is quarter the number of nurses and people in other careers in the NHS compared with five years ago.

Rhodri Glyn Thomas: Fe gofîwch agoriad swyddogol Ysbyty Plant Cymru gan Catherine Zeta Jones a'i gŵr, Michael Douglas. Mae'r cam cyntaf bellach wedi'i gwblhau ac, yn amlwg, mae staff wedi'u recriwtio o ganlyniad i'r cam cyntaf hwnnw. A allwch esbonio pam mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal £38.5 miliwn yn ôl ar gyfer ail gam yr ysbyty hwnnw, sy'n achosi oedi yn y broses o symud ymlaen gydag ysbyty sydd wedi'i adeiladu gan mwyaf drwy ddefnyddio cyfraniadau gwirfoddol gan bobl Cymru?

Y Prif Weinidog: Soniais am y *chwedl* yr oedd Ieuan Wyn Jones yn ceisio'i chreu am yr economi, ac yr ydych chithau'n gwneud yr un peth gyda chamau 2 a 3 ysbyty cenedlaethol Cymru. Nid ydym wedi cael cais gan yr ymddiriedolaeth ar gyfer hyn. Mae angen i'r gwahanol gyrff comisiynu barhau i wneud penderfyniadau comisiynu. Nid oes cytundeb am ba lefel o ofal yn union a brynir gan y byrddau iechyd lleol, felly gofynnaf ichi ddarllen y cofnod ar gyfer yr hyn a ddywedasoch. Gofynnaf ichi holi Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a ydynt wedi gwneud cais am £38 miliwn gan y Gweinidog dros iechyd. Yna, credaf y byddwch yn dymuno tynnu'n ôl eich cyhuddiad ynglŷn â dal cyfalaf yn ôl.

David Melding: Mae rhai meysydd sydd ar ei hôl hi, ac mae'r gwasanaeth iechyd meddwl yn un ohonynt. Mae angen rhagor o seiciatryddion o hyd, a rhagor o feddygon teulu sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl, a

to increase their number and improve the percentage that is currently recruited to establishments. At the moment, there are still far too many vacancies in mental health.

The First Minister: Workforce planning across the health service is not easy—we all know that. It is difficult to get it right because you are never sure what proportion of nurses, physiotherapists, occupational therapists, doctors and consultants will work through right until retirement age. Mental health, for instance, is still afflicted by newly-qualified nurses with mental health skills not being able to get jobs, despite the level of vacancies. We need to fit in the big graduating class of 600 nurses, who are finishing their three-year degrees and are coming through now. Only 400 of those have, so far, found jobs. I do not think that the situation is that different for other nurses.

Kirsty Williams: Would you regard the decision of Powys Local Health Board to close in-patient services at Builth Wells, Bronllys and Knighton hospitals as an effective recruitment and retention strategy, or would you agree with the consultant clinician who spoke at last week's board meeting that such swingeing cuts will have a devastating effect on staff morale and will lead to a mass migration of staff out of Powys?

2.30 p.m.

The First Minister: I do not know whether any of those things are true. What is true is that neither the First Minister nor the Minister for Health and Social Services can micromanage the health service in all parts of Wales. I understand, and have listened carefully to, your remarks about what consultants have said at the board meeting, protesting about proposals. I will ask Brian to look into those and to respond to you in detail, because I am not clear about just how dire the proposition is that you put to us, but, if it is as dire as you say, it deserves a detailed reply.

nyrsys arbenigol. Mae angen inni gynyddu eu niferoedd a gwella'r ganran sydd ar hyn o bryd yn cael eu recriwtio gan sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae llawer gormod o swyddi gwag ym maes iechyd meddwl o hyd.

Y Prif Weinidog: Nid yw cynllunio gweithlu ar draws y gwasanaeth iechyd yn hawdd—yr ydym i gyd yn gwybod hynny. Mae'n anodd sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn iawn am nad ydych byth yn siŵr pa gyfran o nyrsys, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, meddygon ac ymgynghorwyr a fydd yn fodlon gweithio hyd nes eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol. Mae iechyd meddwl, er enghraifft, yn dal i wynebu problemau am na all nyrsys sydd newydd gymhwyso sydd â sgiliau iechyd meddwl gael swyddi, er gwaethaf nifer y swyddi gwag. Mae angen inni ganfod lle i'r dosbarth mawr o 600 o nyrsys sy'n graddio, sy'n gorffen eu graddau tair blynedd ac yn chwilio am swyddi yn awr. Dim ond 400 o'r rhain sydd, hyd yn hyn, wedi canfod swyddi. Nid wyf yn meddwl bod y sefyllfa'n wahanol iawn o ran nyrsys eraill.

Kirsty Williams: A fyddech yn barnu bod penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Powys i gau eu gwasanaethau cleifion preswyl yn ysbytai Llanfair-ym-Muallt, Bronllys a Threfyclo yn strategaeth effeithiol ar gyfer recriwtio a chadw staff, neu a fyddech yn cytuno â'r clinigwr ymgynghorol a siaradodd yng nghyfarfod y bwrdd yr wythnos diwethaf y bydd toriadau mor llym yn cael effaith ddinistriol ar forâl y staff ac yn arwain at beri i staff adael Powys ar raddfa enfawr?

Y Prif Weinidog: Ni wn a yw unrhyw un o'r pethau hynny'n wir. Yr hyn sydd yn wir yw na all y Prif Weinidog na'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ficoreoli'r gwasanaeth iechyd ym mhob rhan o Gymru. Deallaf eich sylwadau ynghylch yr hyn a ddywedodd ymgynghorwyr yng nghyfarfod y bwrdd, gan brotestio ynghylch cynigion, ac yr wyf wedi gwranddo'n astud ar y sylwadau hynny. Gofynnaf i Brian ystyried y rheini a rhoi ymateb manwl ichi, oherwydd nid wyf yn glir ynghylch pa mor enbydus yw'r gosodiad a gyflwynasoch inni, ond, os ydyw mor enbydus ag y dywedwch, mae'n

haeddu ateb manwl.

Ailgynllunio Gwasanaethau Iechyd Redesigning Health Services

Q5 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement about redesigning health services in north Wales? OAQ1873(FM)

The First Minister: It is a complicated issue right at this moment. The local health boards in the areas where there are contested proposals, which include Conwy and Clwyd, have about a week to submit a report to the regional office. That will then be followed by an arbitration meeting convened by the regional office in roughly a month's time.

Denise Idris Jones: As I have brought up before, most recently in a short debate, there are grave concerns about the future of the hospital, and particularly the future of breast cancer services, in Llandudno. After the rejection of the reviews by the members of the Conwy Local Health Board on the particular matter of breast cancer services in Llandudno, I hope that you will agree with me that serious consideration should now be given to keeping this excellent facility in Llandudno, and expanding it so that it can be used by breast care patients throughout north Wales?

The First Minister: You will understand that, for the same reason as I gave Kirsty, it is not for me or the Minister to micromanage the health service in north Wales. If there can be agreement between them, it is up to the trusts, the reconfiguration team, the regional office, the local health board and, as the ultimate patient representatives, the community health councils and political representatives, such as yourself. I hope that they can reach agreement, and I hope that such agreement carries the public with them. I also hope that everyone can see the right way forward for Llandudno Hospital and the excellent service that it has provided so far.

Janet Ryder: Many would agree that the Breast Test Wales services must stay in Llandudno. The service that it provides there for women is of an incredibly high standard

C5 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailgynllunio gwasanaethau iechyd yn y gogledd? OAQ1873(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'n fater cymhleth ar hyn o bryd. Mae gan y byrddau iechyd lleol yn yr ardaloedd lle y mae anghytundeb ynghylch y cynigion, sy'n cynnwys Conwy a Chlwyd, ryw wythnos i gyflwyno adroddiad i'r swyddfa ranbarthol. Yna ceir cyfarfod cymrodeddu a elwir gan y swyddfa ranbarthol ymhen rhyw fis.

Denise Idris Jones: Fel y crybwyllais o'r blaen, yn fwyaf diweddar mewn dadl fer, mae pryderon dwys ynghylch dyfodol yr ysbyty, ac yn enwedig dyfodol gwasanaethau cancer y fron, yn Llandudno. Wedi i aelodau Bwrdd Iechyd Lleol Conwy wrthod yr adolygiadau ar fater penodol gwasanaethau cancer y fron yn Llandudno, gobeithio y cytunwch â mi y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol yn awr i gadw'r cyfleuster rhagorol hwn yn Llandudno, a'i ehangu fel y gellir ei ddefnyddio gan gleifion gofal y fron drwy'r gogledd i gyd?

Y Prif Weinidog: Byddwch yn deall, am yr un rheswm ag a roddais i Kirsty, nad mater i mi na'r Gweinidog yw microreoli'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd. Os gellir cael cytundeb rhyngddynt, mater ydyw i'r ymddiriedolaethau, y tîm ailgyflunio, y swyddfa ranbarthol, y bwrdd iechyd lleol ac, fel cynrychiolwyr y cleifion yn y pen draw, y cynghorau iechyd cymuned a chynrychiolwyr gwleidyddol fel chi. Gobeithiaf y gallant ddod i gytundeb, a gobeithiaf y bydd cytundeb o'r fath yn cael cefnogaeth y cyhoedd. Gobeithiaf hefyd y gall pawb weld y ffordd iawn ymlaen i Ysbyty Llandudno a'r gwasanaeth rhagorol y mae wedi'i ddarparu hyd yn hyn.

Janet Ryder: Byddai llawer yn cytuno bod yn rhaid i wasanaethau Bron Brawf Cymru aros yn Llandudno. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yno i ferched yn un o safon

and must be maintained. However, you made reference to the process. Conwy Community Health Council objected to the plans, stating in its response that,

‘[i]n essence our strong and unequivocal objections are based on the fact that this document has failed to articulate an overall strategy to which ALL agencies have contributed and agreed’.

One of the main objections at the local health board meeting was that departments such as social services and others outside the immediate health family would have to contribute strongly to make these proposals work in north Wales, yet they had not been included and there was no evidence that those plans could go ahead without complete cohesion among all the service providers. Do you not agree that those plans must be put on hold until we see clearly how any new services are to be developed, where they will be developed, and where the finances will come from to develop them?

The First Minister: You may not have heard everything that I said in answer to Denise Idris Jones’s question, because I said that the proposals were on hold at the moment. That is the procedure that the local health board is following, under which it has a short period in which to draw up a report for the regional office—and that applies to Conwy and to Clwyd, where there are contested proposals—and then the regional office will organise an arbitration meeting in approximately a month’s time to see whether it can reach agreement. We will then have to see what comes of that procedure. Obviously, this will be a sensitive issue over the next four or five weeks.

Mark Isherwood: We have heard of the concerns of community health councils, given that the transfer of work from secondary to primary care may not be properly resourced. Further concerns have been expressed about the loss of beds and services in community hospitals, uniting campaigners across Wales, including in Blaenau Ffestiniog, Prestatyn and Flint.

anhengoel o uchel a rhaid ei gadw. Fodd bynnag, cyfeiriasoch at y broses. Gwrthwynebodd Cyngor Iechyd Cymuned Conwy y cynlluniau, gan ddweud yn ei ymateb,

yn eu hanfod, mae ein gwrthwynebiadau cryf a diamwys yn seiliedig ar y ffaith bod y ddogfen hon wedi methu cyflwyno strategaeth gyffredinol y mae POB asiantaeth wedi cyfrannu ati ac wedi cytuno arni.

Un o’r prif wrthwynebiadau yng nghyfarfod y bwrdd iechyd lleol oedd y byddai’n rhaid i adrannau megis y gwasanaethau cymdeithasol ac eraill y tu allan i’r teulu iechyd uniongyrchol gyfrannu’n gryf i sicrhau bod y cynigion hyn yn gweithio yng ngogledd Cymru, ac eto nid oeddent wedi’u cynnwys ac nid oedd dim tystiolaeth y gallai’r cynlluniau hynny fynd yn eu blaenau heb gydlyniant llwyr ymysg yr holl ddarparwyr gwasanaethau. Oni chytunwch fod yn rhaid dal y cynlluniau hynny’n ôl hyd nes y gwelwn yn glir sut y bwriedir datblygu unrhyw wasanaethau newydd, ble y cânt eu datblygu, ac o ble y daw’r arian i’w datblygu?

Y Prif Weinidog: Efallai na chlywsoch bopeth a ddywedais wrth ateb cwestiwn Denise Idris Jones, oherwydd dywedais fod y cynigion yn cael eu dal yn ôl ar hyn o bryd. Dyna’r weithdrefn y mae’r bwrdd iechyd lleol yn ei dilyn, lle y mae ganddo gyfnod byr i lunio adroddiad i’r swyddfa ranbarthol—ac mae hynny’n wir am Gonwy ac am Glwyd, lle y mae anghydweld ynglŷn â chynigion—ac wedyn bydd y swyddfa ranbarthol yn trefnu cyfarfod cymrodeddu ymhen rhyw fis i weld a ellir dod i gytundeb. Bydd yn rhaid inni weld wedyn beth a ddaw yn sgîl y weithdrefn honno. Yn amlwg, bydd hwn yn bwnc sensitif yn ystod y pedair neu bum wythnos nesaf.

Mark Isherwood: Yr ydym wedi clywed am bryderon cynghorau iechyd cymuned, o ystyried efallai nad oes adnoddau priodol wedi’u neilltuo i drosglwyddo gwaith o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Mynegwyd pryderon pellach ynghylch colli gwelyau a gwasanaethau mewn ysbytai cymuned, gan uno ymgyrchwyr ledled Cymru, gan gynnwys Blaenau Ffestiniog, Prestatyn a’r

Hospices in north Wales tell me that, despite being providers of secondary care, they were not consulted during the review of secondary care services in north Wales. How do you respond to the north Wales hospice that has written to me this week to state that the loss of funding from your Government has been covered only by a cut in doctors' hours for day patients, the loss of the matron's post, the loss of additional services, and the staff's agreement to forgo their annual cost of living increase?

The First Minister: I am not sure which hospice you are referring to, so perhaps you could write to me on that, and you will then receive a detailed response. As regards the more general point, health service funding has been made on the basis of providing a much wider range of services within the national health service. However, it involves accepting that, given the choice between a quantum or unit of care in a primary care setting and in a hospital setting, most people would prefer to be in a primary care setting. So, technologically, there is a gradual shift towards the primary care setting. In terms of the way in which that has impacted on the circumstances of a particular hospital, which you have not named, and there may be good reasons for that, please write to me or Brian Gibbons, and I will ensure that you get a detailed reply.

Fflint. Dywed hosbisau yn y gogledd wrthyf nad ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr adolygiad o wasanaethau gofal eilaidd yn y gogledd, er eu bod yn ddarparwyr gofal eilaidd. Sut yr ydych yn ymateb i'r hosbis yn y gogledd sydd wedi ysgrifennu ataf yr wythnos hon i ddweud mai'r unig ffordd y llwyddwyd i ddod i ben â cholli'r cyllid a ddarparai eich Llywodraeth fu drwy gwtogi oriau meddygon i weld cleifion dydd, colli swydd y fetron, colli gwasanaethau ychwanegol, a chael y staff i gytuno i beidio â chael eu codiad cyflog blynyddol i dalu am gostau byw?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr at ba hosbis yr ydych yn cyfeirio, felly hwyrach y gallech ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, ac wedyn cewch ymateb manwl. Ynglŷn â'r pwynt mwy cyffredinol, mae proses ariannu'r gwasanaeth iechyd wedi'i gwneud ar sail darparu amrediad llawer ehangach o wasanaethau o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol. Fodd bynnag, mae'n golygu derbyn y byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl, o gael y dewis rhwng cwantwm neu uned o ofal mewn lleoliad gofal sylfaenol ac mewn ysbyty, fod mewn lleoliad gofal sylfaenol. Felly, yn dechnolegol, mae symudiad graddol tuag at y lleoliad gofal sylfaenol. O ran y ffordd y mae hyn wedi effeithio ar amgylchiadau ysbyty penodol, nad ydych wedi ei enwi, ac efallai fod rhesymau da dros hynny, ysgrifennwch ataf fi neu Brian Gibbons, ac fe sicrhaf y cewch ateb manwl.

Gofal Lliniarol Palliative Care

Q6 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on the provision of palliative care in Wales? OAQ1846(FM)

The First Minister: A baseline service review is to be carried out for adult and children's palliative care services in Wales. A tender exercise is currently under way, and an initial sift has identified those organisations that will be invited to bid for the project. The work will investigate and identify the total provision of palliative care in Wales provided by the NHS, private providers and the voluntary sector.

C6 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal lliniarol yng Nghymru? OAQ1846(FM)

Y Prif Weinidog: Mae adolygiad gwasanaeth sylfaenol am gael ei gynnal ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol i oedolion a phlant yng Nghymru. Mae tendro ar droed ar hyn o bryd, ac mae sifft gychwynnol wedi dod o hyd i'r cyrff hynny a gaiff wahoddiad i gynnig am y prosiect. Bydd y gwaith yn ymchwilio i weld beth yw cyfanswm y ddarpariaeth gofal lliniarol yng Nghymru a ddarperir gan y GIG, darparwyr preifat a'r sector gwirfoddol.

Brynle Williams: Diolch am yr ateb hwnnw.

You have previously made distinctions between general palliative care, the majority of which is provided by the NHS, and hospice care, invariably provided by the voluntary sector. However, do you not agree that hospice care is a critical part of palliative care, and that the care of the dying and the management of pain and psychological distress are not suited to district general hospitals? The independent hospices providing this essential service deserve a sustained increase in funding that goes beyond the one-off £10 million that was provided this year.

The First Minister: With unlimited resources and endless chequebooks, that would always be true, but, when the £10 million was allocated two and a half years ago, it was always on the basis that it would be to try out a different range of services covering the palliative care spectrum—voluntary, NHS, private hospitals and so forth. It has done that, and there is still money left in the system. It has not all been allocated yet—I think that there is £1 million or so still left for the final six months. It was always allocated on the basis that local health boards would look at what had worked and at what had not worked quite so well, and then would try to absorb that into mainstream funding.

Jenny Randerson: The care of cancer patients is one of the tasks of the Children's Hospital for Wales, and I wish to take you back to that issue. You referred earlier to the need for local health boards to agree to provide revenue funding. Since the Children's Hospital for Wales is for children from all of Wales—certainly from the whole of south Wales—it is not a local health board issue in the main. This means that its funding will come from Health Commission Wales, and the Minister for Health and Social Services has direct links with Health Commission Wales. Have you had any discussions with him as to how to find the revenue funding of approximately £5 million a year that will be needed? Have you taken into account that, from the moment

Brynle Williams: Thank you for that answer.

O'r blaen yr ydych wedi gwahaniaethu rhwng gofal lliniarol cyffredinol, y darperir y rhan fwyaf ohono gan y GIG, a gofal hosbis, a ddarperir yn ddi-ffael gan y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, oni chytunwch fod gofal hosbis yn rhan allweddol o ofal lliniarol, ac nad yw gofalu am bobl sydd yn marw a rheoli poen a thralod seicolegol yn beth y mae'n addas ei gyflawni mewn ysbytai cyffredinol dosbarth? Mae'r hosbisau annibynnol sydd yn darparu'r gwasanaeth hanfodol hwn yn haeddu cynnydd parhaus yn eu cyllid heblaw'r £10 miliwn unwaith-ac-am-byth a roddwyd eleni.

Y Prif Weinidog: Gydag adnoddau diderfyn a llyfrau sicc diddiwedd, byddai hynny bob amser yn wir, ond, pan ddyrannwyd y £10 miliwn ddwy flynedd a hanner yn ôl, yr oedd hynny bob amser ar y sail y'i defnyddid i roi cynnig ar amrediad gwahanol o wasanaethau ar gyfer y sbectrwm gofal lliniarol—gwirfoddol, GIG, ysbytai preifat ac yn y blaen. Mae wedi gwneud hynny, ac mae arian ar ôl yn y system o hyd. Nid yw'r cyfan wedi'i ddyrannu eto—credaf fod rhyw £1 filiwn yn dal ar ôl ar gyfer y chwe mis olaf. Y bwriad erioed wrth ei ddyrannu oedd y byddai byrddau iechyd lleol yn edrych ar beth oedd wedi gweithio ac ar beth nad oedd wedi gweithio llawn cystal, ac wedyn y byddent yn ceisio cynnwys hynny yn y cyllid prif ffrwd.

Jenny Randerson: Mae gofalu am gleifion canser yn un o dasgau Ysbyty Plant Cymru, a hoffwn fynd â chi'n ôl at y pwnc hwnnw. Cyfeiriasoch yn gynharach at yr angen i fyrddau iechyd lleol gytuno i ddarparu arian refeniw. Gan fod Ysbyty Plant Cymru ar gyfer plant o Gymru gyfan—yn sicr o dde Cymru i gyd—nid mater i fwrdd iechyd lleol ydyw yn y bôn. Golyga hyn y daw ei arian oddi wrth Gomisiwn Iechyd Cymru, ac mae gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gysylltiadau uniongyrchol â Chomisiwn Iechyd Cymru. A ydych wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag ef ynghylch sut i ddod o hyd i'r arian refeniw o ryw £5 miliwn y flwyddyn y bydd ei angen? A ydych wedi ystyried y cymer dair blynedd, o'r foment y rhoddir caniatâd i

permission is given to build that building, it will take three years before the revenue funding is needed, because the hospital is complete?

The First Minister: You have a bit of a gift for rearranging my words, Jenny. What you say I said was that it required revenue funding decisions by local health boards, but that is not what I said. I said that it was a commissioning decision. It is not all about revenue—it is about where they want care to be carried out. Your first version was incorrect, though you are right to say that it is not for the whole of Wales—it does not cover north Wales. However, as a specialist tertiary hospital covering south and mid Wales, it involves difficult decisions for local health boards across some 10 or more local health boards to decide where to carry out that certain level of care. As yet, they have not come to a unified decision on that front.

Helen Mary Jones: To refer you back to your answer to Brynle Williams and accepting that this work is ongoing, do you agree that, where the voluntary sector is providing mainstream medical services in palliative care, whether in a community setting or in a hospice, those aspects of care that are mainstream medical care should be funded from the public purse as a point of principle?

2.40 p.m.

The First Minister: On its being funded from the public purse as a point of principle, yes, mainstream funding is for the public purse. The extras, if you like—but you do not always get a unified definition of what an ‘extra’ is—will be covered, whether that is for the Children’s Hospital for Wales or for a hospice. They will always be susceptible to good, charitable funding, especially for the non-mainstream kinds of service. However, the £10 million also covers a lot of non-mainstream activity, because it was seen as an experimental phase over a three-year period in which people would test out a huge range of new services not previously available in Wales. It has provided a wonderful opportunity for the palliative care

godi’r adeilad hwnnw, cyn y bydd angen yr arian refeniw am fod yr ysbyty wedi’i gwblhau?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn dipyn o giamstar ar ad-drefnu fy ngeiriau, Jenny. Yr hyn a ddywedais, meddwch chi, yw ei fod yn galw am benderfyniadau ynghylch arian refeniw gan fyrddau iechyd lleol, ond nid hynny a ddywedais. Dywedais mai penderfyniad comisiynu ydoedd. Nid refeniw yw pob dim—mae a wnelo â ble y maent arnynt eisiau i ofal gael ei roi. Yr oedd eich fersiwn gyntaf yn anghywir, er eich bod yn gywir wrth ddweud nad yw ar gyfer Cymru gyfan—nid yw’n gwasanaethu’r gogledd. Fodd bynnag, fel ysbyty trydyddol arbenigol ar gyfer y de a’r canolbarth, mae’n golygu penderfyniadau anodd i ryw 10 neu ragor o fyrddau iechyd lleol i benderfynu ymhle i gyflawni’r lefel arbennig honno o ofal. Hyd yma, nid ydynt wedi dod i benderfyniad unfryd ar hynny.

Helen Mary Jones: A chyfeirio’n ôl at eich ateb i Brynle Williams ac a derbyn bod y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen, a ydych yn cytuno, lle y bo’r sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau meddygol prif ffrwd mewn gofal lliniarol, boed yn y gymuned neu mewn hosbis, y dylid talu am yr agweddau hynny ar y gofal sydd yn ofal meddygol prif ffrwd allan o’r pwrs cyhoeddus fel pwynt o egwyddor?

Y Prif Weinidog: O ran talu amdano o’r pwrs cyhoeddus fel pwynt o egwyddor, ie, mater i’r pwrs cyhoeddus yw ariannu prif ffrwd. Caiff yr elfennau ychwanegol, os mynnwch—ond ni allwch bob amser gael diffiniad unfryd o ‘elfen ychwanegol’—eu darparu, boed hynny’n fater i Ysbyty Plant Cymru neu i hosbis. Bydd lle i roi arian da, elusennol, tuag atynt bob amser, yn enwedig ar gyfer y mathau o wasanaeth nad ydynt yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, mae’r £10 miliwn hefyd yn talu am lawer o weithgaredd nad yw yn y brif ffrwd, oherwydd fe’i gwelwyd fel cam arbrofol dros gyfnod o dair blynedd lle y byddai pobl yn rhoi prawf ar amrediad anferth o wasanaethau newydd nad oeddent ar gael cyn hynny yng Nghymru. Mae wedi

sector—voluntary, private and NHS—to show what it can do, but it was always on the basis that the local health boards would then have to absorb all of that, if they wanted to, into their mainstream funding.

rhoi cyfle gwych i'r sector gofal lliniarol—gwirfoddol, preifat a GIG—ddangos beth y gall ei wneud, ond yr oedd hynny bob amser ar y sail y byddai'n rhaid i'r byrddau iechyd lleol wedyn gynnwys hynny i gyd, pe mynnt, yn eu cyllid prif ffrwd.

Denu Digwyddiadau Chwaraeon Attracting Sporting Events

Q7 Gwenda Thomas: What is the Welsh Assembly Government doing to attract sporting events to Wales? OAQ1853(FM)

C7 Gwenda Thomas: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddenu digwyddiadau chwaraeon i Gymru? OAQ1853(FM)

The First Minister: We have a good reputation in this area, I think you would agree, with the 1999 Rugby World Cup, the Ryder Cup in 2010, the Wales Rally GB, which has been held here for several years now and will be for several more years to come, and the Heineken Cup final in the Millennium Stadium last May.

Y Prif Weinidog: Mae gennym enw da yn y maes hwn, yr wyf yn meddwl y cytunch, gyda Chwpan Rygbi'r Byd 1999, Cwpan Ryder yn 2010, Rali GB Cymru, a gynhelir yma ers blynnyddoedd lawer bellach ac am flynyddoedd lawer i ddod, a rownd derfynol Cwpan Heineken yn Stadiwm y Mileniwm fis Mai diwethaf.

Gwenda Thomas: Will you join me in congratulating Neath Port Talbot County Borough Council on attracting the XTERRA triathlon to the Vale of Neath in September this year? The event not only attracted several Olympians and top international athletes for the gruelling 1,500m swim, the 32km mountain bike trial and the 10km run, but also received live, worldwide television coverage. It is the first time that the prestigious European tour event has come to Wales, being staged in Neath Port Talbot for a minimum of three years. It was expected to attract 2,000 competitors and around 7,500 visitors, but, by its third year, competitor and visitor numbers are expected to more than double. I am sure that you will agree that this will give the local economy a huge boost and will confirm the area as a tourist attraction.

Gwenda Thomas: A wnewch ymuno â mi i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am ddenu triathlon XTERRA i Gwm Nedd ym Medi eleni? Yn ogystal â denu llawer o gampwyr Olympaidd ac athletwyr rhyngwladol o fri ar gyfer y ras nofio 1,500m, sy'n lladdfa, y treial beic mynydd 32km a'r ras redeg 10 km, cafodd y digwyddiad ei ddarlledu'n fyw dros y byd. Dyma'r tro cyntaf i'r digwyddiad Ewropeaidd pwysig hwn ddod i Gymru, ac fe'i cynhelir yng Nghastell-nedd Port Talbot am o leiaf dair blynedd. Disgwylid iddo ddenu 2,000 o gystadleuwyr a rhyw 7,500 o ymwelwyr, ond, erbyn ei drydedd flwyddyn, disgwylir y bydd niferoedd y cystadleuwyr a'r ymwelwyr wedi dyblu a mwy na hynny. Yr wyf yn siŵr y cytunwch y rhydd hyn hwb enfawr i'r economi leol a chadarnhau'r ardal fel atyniad i dwristiaid.

The First Minister: The triathlon is a relatively new sport but, on the other hand, it is one in which Wales already has a terrific reputation as regards competitors. The good thing about this event—as well as white-water rafting, mountain biking and other events—is that it can do things that the Heineken Cup, the Rugby World Cup and perhaps even the Ryder Cup cannot do, which is to show off Wales's rugged

Y Prif Weinidog: Camp gymharol newydd yw'r triathlon, ond, ar y llaw arall, mae'n un lle y mae gan Gymru eisoes enw rhagorol o ran cystadleuwyr. Y peth da am y digwyddiad hwn—yn ogystal â rafftio dŵr gwyn, beicio mynydd a digwyddiadau eraill—yw y gall wneud pethau na all Cwpan Heineken, Cwpan Rygbi'r Byd ac efallai hyd yn oed Cwpan Ryder mo'u gwneud, sef dangos golygfeydd godidog mynyddoedd

mountain scenery to the best effect. Therefore, we want to see a wider range of world events brought to Wales, especially as extreme sports of this kind now get massive television coverage throughout the world.

Lisa Francis: I am glad that you mentioned white-water rafting. Could you indicate whether your Government intends to hold further talks with the Welsh Canoeing Association, the British Canoe Union, the Environment Agency and any tourism or local government organisations to try to resurrect the World Wild Water Championships held at Canolfan Tryweryn near Bala? The loss of those championships last Whitsun was a devastating blow to the economy and also to sport in Wales. The event would normally have attracted around 16,000 visitors to the area and, as you just said, the television coverage shows off Wales's magnificent scenery to the whole world.

The First Minister: It was a tragedy that it never came—it is almost like the LG investment, to be honest—because it would have shown off our scenery and brought tourists in as well as specialist extreme sports competitors who look for the rugged scenery, in which Wales is so rich, the white water and so on. We investigated what had gone wrong, and I do not know whether the terribly fragile alliance of the British and Welsh canoeing unions and the European canoeing union can be resurrected now, because it took such a battering in the dispute that led to its being abandoned before the event ever took place. It was an absolute tragedy for Wales.

Mynegai Amlamddifadedd Cymru The Welsh Index of Multiple Deprivation

Q8 Christine Chapman: How is the Welsh index of multiple deprivation influencing the Welsh Assembly Government's policies? OAQ1874(FM)

The First Minister: As combating deprivation is a prime objective of the Welsh Assembly Government's policies, the Welsh index of multiple deprivation is extremely valuable to us in identifying areas with the

Cymru ar eu gorau. Felly, mae arnom eisiau gweld amrediad ehangach o ddiwyddiadau byd-eang yn dod i Gymru, yn enwedig gan fod chwaraeon eithafol o'r math hwn yn cael sylw anferthol ar y teledu dros y byd i gyd erbyn hyn.

Lisa Francis: Yr wyf yn falch ichi grybwyll rafftio dŵr gwyn. A allech ddweud a yw eich Llywodraeth yn bwriadu cynnal trafodaethau pellach gyda Chymdeithas Ganŵa Cymru, Undeb Canŵa Prydain, Asiantaeth yr Amgylchedd ac unrhyw gyrff twristiaeth neu lywodraeth leol i geisio atgyfodi Pencampwriaethau Dŵr Gwyllt y Byd a gynhelid yng Nghanolfan Tryweryn ger y Bala? Yr oedd colli'r pencampwriaethau hyn y Sulgwyn diwethaf yn ergyd drom i'r economi a hefyd i chwaraeon yng Nghymru. Byddai'r digwyddiad fel arfer wedi denu rhyw 16,000 o ymwelwyr i'r ardal ac, fel y dywedasoch yn awr, mae'r lluniau teledu'n dangos golygfeydd bendigedig Cymru i'r byd i gyd.

Y Prif Weinidog: Yr oedd yn drychineb na ddaeth o gwbl—mae bron fel y buddsoddiad yn LG, a dweud y gwir—oherwydd byddai wedi arddangos ein golygfeydd a dod â thwristiaid i mewn yn ogystal â chystadleuwyr campau eithafol arbenigol sy'n edrych am y mannau geirwon, y mae gan Gymru gymaint o gyfoeth ohonynt, y dŵr gwyn ac yn y blaen. Gwnaethom ymchwil i ganfod beth a aeth o'i le, ac ni wn a ellir atgyfodi'r gynghair hynod o fregus rhwng undebau canŵa Prydain a Chymru a'r undeb canŵa Ewropeaidd yn awr, oherwydd cafodd gymaint o ergyd yn y ffrae a arweiniodd at roi'r gorau iddi cyn i'r peth ddigwydd erioed. Yr oedd yn drychineb llwyr i Gymru.

C8 Christine Chapman: Sut y mae mynegai amlamddifadedd Cymru yn dylanwadu ar bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ1874(FM)

Y Prif Weinidog: Gan fod brwydro yn erbyn amddifadedd yn un o brif amcanion polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae mynegai amlamddifadedd Cymru yn eithriadol o werthfawr inni wrth ganfod ym mha

highest concentrations of deprivation, and policy interventions can then be focused on them.

Christine Chapman: I mention the convergence programme particularly, because there is a connection between the types of deprivation that the index lists and the priorities and themes of that programme. Will it, for example, be used to concentrate resources on particularly deprived areas in west Wales and the Valleys? With Objective 1, some people were concerned that it was sometimes difficult to quantify the impact on the poorest areas. Although the convergence programme is for the whole of west Wales and the Valleys—and I think that Objective 1 has been very successful and has changed the face of Wales—it needs to account for the differences in deprivation as identified by the index. How will you ensure that that occurs?

The First Minister: To be honest, that will be quite difficult given that it is such a broad-brush programme. It covers 65 per cent of the land area and around the same proportion of the population of Wales. At the same time, in order to achieve community regeneration at a pinpoint level for the areas of highest deprivation, we have Communities First. Convergence is not community regeneration, but economic regeneration. We do not want it to duplicate Communities First, but, undoubtedly, we want it to zero in, and have a bigger impact, on the poorer areas. We started with an area that was already deprived, west Wales and the Valleys, and the job total in that area has increased by 12 per cent between 1999 and today, compared with 8 per cent in the rest of Wales and 7 per cent in the rest of the UK. That is a good overall performance, but, in terms of the quality and quantity of jobs, the more that can be concentrated in the areas of greatest poverty, the better.

Leanne Wood: The Welsh Assembly Government said in 2001 and 2006 and on numerous other occasions that the practical aim of the anti-poverty programme, Communities First, is:

ardaloedd y ceir y crynodiadau uchaf o amddifadedd, fel y gellir canolbwyntio ymyriadau polisi arnynt.

Christine Chapman: Yr wyf yn sôn am y rhaglen gydgyfeirio yn arbennig, oherwydd y mae cysylltiad rhwng y mathau o amddifadedd y mae'r mynegai'n eu rhestru a blaenoriaethau a themâu'r rhaglen honno. A gaiff ei defnyddio, er enghraifft, i ganolbwyntio adnoddau ar ardaloedd arbennig o ddifreintiedig yn y gorllewin a'r Cymoedd? Yn achos Amcan 1, yr oedd rhai'n pryderu am ei bod weithiau'n anodd mesur yr effaith ar yr ardaloedd tlotaf. Er bod y rhaglen gydgyfeirio ar gyfer y cyfan o'r gorllewin a'r cymoedd—ac yr wyf yn credu bod Amcan 1 wedi bod yn llwyddiannus iawn a'i fod wedi gweddnewid Cymru—rhaid iddi ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau o ran amddifadedd fel y'u nodir yn y mynegai. Sut y sicrhewch fod hynny'n digwydd?

Y Prif Weinidog: Bydd hynny'n eithaf anodd, a dweud y gwir, gan ei bod yn rhaglen mor gyffredinol. Mae'n cynnwys 65 y cant o arwynebedd tir Cymru a thua'r un gyfran o'i phoblogaeth. Ar yr un pryd, er mwyn sicrhau adfywio cymunedol ar lefel leol iawn ar gyfer yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae gennym raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen gydgyfeirio ar gyfer adfywio economaidd yn hytrach nag adfywio cymunedol. Nid ydym yn dymuno iddi ddyblygu gwaith Cymunedau yn Gyntaf, ond, yn sicr, yr ydym yn dymuno iddi ganolbwyntio ar yr ardaloedd tlotach, a chael mwy o effaith arnynt. Dechreuasom gydag ardal a oedd eisoes yn ddifreintiedig, sef y gorllewin a'r Cymoedd, ac mae cyfanswm y swyddi yn yr ardal honno wedi codi 12 y cant rhwng 1999 a heddiw, o'i gymharu ag 8 y cant yng ngweddill Cymru a 7 y cant yng ngweddill y DU. Mae'r perfformiad hwnnw'n un da yn gyffredinol, ond, o ran nifer ac ansawdd y swyddi, gorau po fwyaf y gellir eu cael yn yr ardaloedd tlotaf.

Leanne Wood: Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001 ac yn 2006 ac ar sawl achlysur arall mai nod ymarferol y rhaglen yn erbyn tloidi, Cymunedau yn Gyntaf, yw:

'To create job opportunities and to increase the income of local people.'

Creu cyfleoedd i gael swyddi a chynyddu incwm pobl leol.

Can you tell me how many jobs the Communities First programme has created and by how much it has increased local incomes?

A allwch ddweud wrthyf faint o swyddi y mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi'i greu ac o faint y mae wedi cynyddu incwm pobl leol?

The First Minister: I do not know whether you can directly attribute jobs outside the employment provided by the Communities First programme itself. I would not like to over-claim what Communities First has done. We know that 888 people are working on Communities First programmes. However, the broader point, that employment in the poorest parts of Wales has increased faster than in east Wales and the UK, indicates that the programme is likely to be associated with indirect job creation in those areas. Therefore, the 12 per cent increase in employment in west Wales and the Valleys, as compared with a 7 per cent increase in the UK, is likely to involve many additional jobs in Communities First areas.

Y Prif Weinidog: Ni wn a ellir priodoli swyddi'n uniongyrchol i'r rhaglen heblaw'r rhai a ddarperir gan raglen Cymunedau yn Gyntaf ei hun. Ni charwn wneud honiad gormodol am yr hyn y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud. Gwyddom fod 888 o bobl yn gweithio ar raglenni Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae'r pwynt mwy cyffredinol, sef bod cyflogaeth yn y rhannau tlotaf o Gymru wedi cynyddu'n gynt nag yn y dwyrain ac yn y DU, yn dangos ei bod yn debygol bod cysylltiad anuniongyrchol rhwng y rhaglen honno a'r swyddi a grëwyd yn yr ardaloedd hynny. Felly, mae'r cynnydd o 12 y cant mewn cyflogaeth yn y gorllewin a'r Cymoedd, o'i gymharu â 7 y cant yn y DU, yn debygol o gynnwys llawer o swyddi ychwanegol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

William Graham: Colleagues have informed me that teachers have told them that they have children of under five in their classes who have never held a crayon, seen a book and/or been read a story by an adult. By anyone's standards that is deprivation. How is your administration identifying and targeting those ostensibly very affluent communities where there is a high degree of such deprivation?

William Graham: Mae cyd-Aelodau wedi fy hysbysu bod athrawon wedi dweud wrthynt fod ganddynt blant dan bump oed yn eu dosbarthiadau nad ydynt erioed wedi gafael mewn creon, wedi gweld llyfr ac/neu wedi clywed stori'n cael ei darllen iddynt gan oedolyn. Amddifadedd yw hynny yn ôl unrhyw ffon fesur. Sut y mae'ch gweinyddiaeth yn canfod ac yn targedu'r cymunedau hynny, sydd yn dra chefnog i bob golwg, lle y ceir llawer o amddifadedd o'r fath?

The First Minister: I do not know about your point on affluent communities, but you are correct to pinpoint a new problem, faced by teachers in reception and nursery classes, of children who do not know their primary colours or a single nursery rhyme. That would never have happened, even in the poorest family, 20 or 30 years ago. That is a consequence of the video age. On what we are doing to combat that, in trying to re-inject what is not happening in dysfunctional families or communities that have simply lagged behind, the entire philosophy behind the early years programme for three to seven-

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn sicr ynghylch y pwynt a wnaethoch am gymunedau cefnog, ond yr ydych yn gywir wrth dynnu sylw at broblem newydd, a wynebir gan athrawon mewn dosbarthiadau derbyn a meithrin, sef plant nad ydynt yn gyfarwydd â'r lliwiau cysefin nac yn medru'r un hwiangerdd. Ni fyddai hynny byth wedi digwydd, hyn yn oed ar yr aelwyd dlotaf, 20 neu 30 mlynedd yn ôl. Mae hynny'n ganlyniad i'r oes fideo. Ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud i wrthweithio hynny, wrth geisio ailsefydlu arferion mewn teuluoedd neu gymunedau camweithredol sydd ar ei hôl hi, holl

year-olds, and the learning through play agenda that lies behind that, is to ensure that everyone can catch up. Teachers say that it is harder to teach children who do not know their primary colours, cannot construct a sentence or cannot repeat a nursery rhyme, to speak than it is to teach them to read, write or add up. The early years curriculum addresses that very problem.

Peter Black: An outcome of deprivation is that many people do not own a car and cannot afford travel to services. When your Government designs services, that fact must be taken into account. How will you consider that when your Government decides whether or not to move neurosurgery from Swansea to Cardiff, which will increase the travel times for many people to more than two hours and will leave many relatives unable to afford to visit family members in hospital?

2.50 p.m.

The First Minister: This is a wicket issue, and you will displease one part of Wales or another. The decision is a difficult one for that reason and it has to be taken on the best of clinical grounds to make sure that the service is viable and that it will meet royal college guidelines for the training of junior doctors. It has to be the right decision, not from a political point of view, but from the patient point of view.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ1851(FM), is withdrawn.

athroniaeth rhaglen y blynyddoedd cynnar ar gyfer rhai rhwng tair a saith mlwydd oed, a'r agenda ar ddysgu drwy chwarae sydd yn sail i hynny, yw sicrhau bod pawb yn gallu cyrraedd yr un safon. Mae athrawon yn dweud ei bod yn anos dysgu plant i siarad os nad ydynt yn gyfarwydd â'r lliwiau cysefin, yn gallu llunio brawddeg nac yn gallu ailadrodd hwiangerdd, nag y mae i ddysgu iddynt ddarllen, ysgrifennu neu adio. Mae cwricwlwm y blynyddoedd cynnar yn ymdrin â'r union broblem honno.

Peter Black: Un o ganlyniadau amddifadedd yw bod llawer o bobl nad ydynt yn berchen ar gar ac na allant fforddio teithio i gyrraedd gwasanaethau. Pan fydd eich Llywodraeth yn cynllunio gwasanaethau, rhaid cadw'r ffaith honno mewn cof. Sut y gwnewch ystyried hynny pan fydd eich Llywodraeth yn penderfynu a fydd yn symud niwrolawdriniaeth o Abertawe i Gaerdydd ai peidio, gan y byddai'n rhaid i lawer o bobl deithio am fwy na dwy awr o ganlyniad i hynny a byddai llawer o berthnasau'n methu â fforddio mynd i weld aelodau o'u teulu yn yr ysbyty?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn fater lleol, a byddwch yn digio rhyw ran o Gymru. Mae'r penderfyniad yn un anodd oherwydd hynny a rhaid ei wneud ar sail y dystiolaeth glinigol orau er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn ddichonadwy ac y bydd yn cyd-fynd â chanllawiau'r coleg brenhinol ar gyfer hyfforddi meddygon iau. Rhaid gwneud y penderfyniad cywir, nid o safbwynt gwleidyddol, ond o safbwynt y claf.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ1851(FM), yn ôl.

Lefelau Gollyngiadau Carbon Carbon Emission Levels

Q10 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on carbon emission levels in Wales? OAQ1870(FM)

C10 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau gollyngiadau carbon yng Nghymru? OAQ1870(FM)

The First Minister: The most recent figures for Wales produced by the National Environmental Technology Centre show that, in 2003, emissions of carbon dioxide were

Y Prif Weinidog: Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Dechnoleg Amgylcheddol Genedlaethol yn dangos bod y gollyngiadau

11.6 megatons of carbon, an increase of 0.2 per cent when compared with the base year, 1990.

Janet Davies: I am sure that you recognise the contribution that the use of train services makes towards reducing carbon emissions from transport, but I am concerned that some railway companies use a dirty grade of diesel in their operations. What action will you take to ensure that the Wales and Border franchise and any others over which we have influence—through being consulted—use clean diesel?

The First Minister: I hope that you are not confusing acid rain with carbon dioxide and other greenhouse gases. When people refer to a dirty fuel, they normally mean one which emits more sulphur or more nitrous oxide than it should. That is a contributor to acid rain, but it is not a contributor, as far as I know, to greenhouse gases. However, I will take up the point with Andrew, as I read with interest that there were complaints that diesel engines on the Cambrian Line were getting dirty because there was too much pollen, which was clogging the radiators of the engines. That is a new excuse, following leaves on the line and the wrong kind of snow and so on.

Alun Cairns: The Assembly has a statutory duty for sustainability, and controlling carbon emissions is extremely important in that regard. However, do you not accept that your Government has played with policies to reduce carbon emissions—as is demonstrated by the figures—rather than really getting to grips with the issue as David Cameron and the Welsh Conservative Party are?

The First Minister: Oh dear: that was how to play politics with an issue laid bare, I think it is fair to say. It is true that the figures for Wales compared to the figures for 1990 do not look as good as those in Scotland or England. The reason for that is simple: the decline of the manufacturing industry in Scotland has been more rapid than in Wales. At other times, you have accused us of overseeing a rapid decline in the

carbon deuocsid, yn 2003, yn 11.6 megaton o garbon, sef 0.2 y cant yn fwy nag yn y flwyddyn sylfaenol, sef 1990.

Janet Davies: Yr wyf yn sicr eich bod yn cydnabod y cyfraniad a geir o ddefnyddio gwasanaethau trên at leihau gollyngiadau carbon oddi wrth drafnidiaeth, ond yr wyf yn pryderu bod rhai cwmnïau rheilffyrdd yn defnyddio math budr o ddiesel yn eu gweithrediadau. Pa gamau a gymerwch i sicrhau y defnyddir diesel glân ar gyfer masnachfrait Cymru a'r Gororau ac unrhyw rai eraill y mae gennym ddylanwad arnynt—drwy ymgynghori â ni?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn gobeithio nad ydych yn cymysgu rhwng glaw asid a charbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill. Pan fydd pobl yn cyfeirio at danwydd budr, byddant fel arfer yn golygu un sydd yn gollwng mwy o sylffwr neu o ocsid nitraidd nag a ddylai. Mae hynny'n cyfrannu at law asid ond, hyd y gwn, nid yw'n cyfrannu at nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, codaf y pwynt hwnnw gydag Andrew, gan imi ddarllen gyda diddordeb fod cwynion bod peiriannau diesel ar Reilffordd y Cambrian yn mynd yn fudr am fod gormod o baill, a oedd yn cau rheiddiaduron y peiriannau. Mae hynny'n esgus newydd, ar ôl yr un am ddail ar y cledrau a'r math anghywir o eira ac yn y blaen.

Alun Cairns: Mae gan y Cynulliad ddyletswydd statudol o ran cynaliadwyedd, ac mae rheoli gollyngiadau carbon yn bwysig dros ben yn hynny o beth. Fodd bynnag, a ydych yn derbyn mai wedi chwarae â pholisïau i leihau gollyngiadau carbon y mae eich Llywodraeth—fel y mae'r ffigurau'n dangos—yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater fel y mae David Cameron a Phlaid Geidwadol Cymru?

Y Prif Weinidog: O'r annwyl: yr wyf yn credu mai teg yw dweud mai felly y mae chwarae gwleidyddiaeth â phwnc. Mae'n wir nad yw'r ffigurau ar gyfer Cymru, o'u cymharu â'r rhai ar gyfer 1990, yn ymddangos cystal â'r rhai ar gyfer yr Alban neu Loegr. Mae rheswm syml dros hynny: mae'r diwydiant gweithgynhyrchu wedi dirywio'n gynt o lawer yn yr Alban nag yng Nghymru. Ar adegau eraill, yr ydych wedi

manufacturing industry, but it is precisely because the manufacturing industry has not declined as rapidly as it has in Scotland that our figures look worse than those for Scotland, because we still have more industry left than it does pro-rata to the size of our economy. It is true that the figures for England look better, but that is due to North sea oil and gas, which we would like to have off the Welsh coast but do not. There has been a bigger switch from coal-fired electricity generation to gas-fired generation in England, which was much slower in coming to Wales because the gas is on the wrong side of the country. It is a very simple geographical reason.

ein cyhuddo o fod wrth y llyw wrth i ddirywiad cyflym ddigwydd yn y diwydiant gweithgynhyrchu, ond y ffaith nad yw'r diwydiant gweithgynhyrchu wedi dirywio cyn gyflymed ag y mae wedi gwneud yn yr Alban yw'r union reswm bod ein ffigurau ni'n ymddangos yn waeth na'r rhai ar gyfer yr Alban, gan fod gennym fwy o ddiwydiant ar ôl nag sydd ganddi hi fel cyfran o'n heconomi. Mae'n wir bod y ffigurau ar gyfer Lloegr yn ymddangos yn well, ond mae hynny oherwydd olew a nwy môr y Gogledd, y byddai'n dda gennym eu cael ger arfordir Cymru. Cafwyd mwy o newid o gynhyrchu trydan drwy losgi glo i gynhyrchu drwy losgi nwy yn Lloegr, tra bo hynny wedi digwydd yn arafach o lawer yng Nghymru am fod y nwy ar yr ochr anghywir i'r wlad. Mae'n rheswm daearyddol syml iawn.

Hyrwyddo Effeithlonrwydd Ynni Promoting Energy Efficiency

Q11 Mick Bates: What is the Welsh Assembly Government doing to support and promote energy efficiency? OAQ1859(FM)

C11 Mick Bates: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni? OAQ1859(FM)

The First Minister: Over £54 million has been made available through the home energy efficiency scheme, supporting over 64,000 homes to become more energy efficient.

Y Prif Weinidog: Darparwyd mwy na £54 miliwn drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, gan helpu mwy na 64,000 o gartrefi i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Mick Bates: Figures from British Gas suggest that the average energy bill in Wales will pass the £1,000 mark this year, pushing 260,000 into fuel poverty this winter. That is double the number in 2003. You have said that your Government's home energy efficiency scheme has, more or less, helped 60,000 households, leaving 200,000 households in fuel poverty this winter. I am sure that you will agree that that figure is very high and is deplorable. What do you propose to do about the 200,000 households that will be in fuel poverty this winter?

Mick Bates: Mae ffigurau gan Nwy Prydain yn awgrymu y bydd y bil am ynni yng Nghymru'n codi'n uwch na £1,000 eleni ar gyfartaledd, gan wthio 260,000 o bobl i dlodi tanwydd y gaeaf hwn. Mae hynny gymaint ddwywaith â'r nifer yn 2003. Yr ydych wedi dweud bod cynllun effeithlonrwydd ynni cartref eich Llywodraeth wedi helpu 60,000 o aelwydydd, fwy neu lai, gan adael 200,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd y gaeaf hwn. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod y ffigur hwnnw'n uchel iawn a'i fod yn warthus. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ynghylch y 200,000 o aelwydydd a fydd mewn tlodi tanwydd y gaeaf hwn?

The First Minister: You have been a bit selective there, Mick, because the home energy efficiency scheme cannot somehow invent cheap gas or oil that does not exist. The raw price of the fuel has shot up. We all

Y Prif Weinidog: Yr ydych wedi bod braidd yn ddetholus yn hyn o beth, Mick, gan nad oes modd i'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref ddyfeisio nwy neu olew rhad nad yw'n bod. Mae pris y tanwydd crai wedi codi

know that; you know that, but you are trying to pretend that, in some way, we should be able to exempt Wales from a worldwide massive shift in market prices. I am glad to see that prices are now beginning to ease. However, who knows what will happen later on this winter?

We can try to make every home as energy efficient as possible, starting with those people who are most liable to fall into fuel poverty, but when fuel prices shoot up like a rocket, as they have done over the past two years, you have to run very fast in order to stand still. We have picked most of the lower-hanging fruit in terms of home energy efficiency schemes. We are now doing much more on that front. We have put in additional money for this financial year and the next, as you will recall from the last budget, and we hope that that will alleviate the problem.

Jocelyn Davies: Alongside the work being undertaken to improve energy efficiency in homes in Wales, would you consider, as a matter of urgency, the need to ensure that all homes also have a carbon monoxide detector?

The First Minister: I am not sure of the position regarding detectors, which can be of huge value, especially in houses in multiple occupation. I will have to look into the question with regard to what the regulations are at present, and I will ask Edwina Hart to write to you.

Glyn Davies: Over recent weeks, there has been much discussion about the need to improve the standard of a great deal of our housing, particularly housing in public sector ownership. Do you agree that it is vital that we maximise energy efficiency in these houses as they are improved? That would be of huge benefit not only to those who live in those houses, in terms of the costs that they are suffering, but also to the environment and in the commitment that it makes clear to everyone else.

The First Minister: Gas-fired central

i'r entrychion. Yr ydym oll yn gwybod hynny; yr ydych chi'n gwybod hynny, ond yr ydych yn ceisio cymryd arnoch y dylem allu eithrio Cymru rywsut o newid anferth drwy'r byd ym mhrisiau'r farchnad. Yr wyf yn falch o weld bod y prisiau'n dechrau gostwng bellach. Fodd bynnag, pwy a wŷr beth a ddigwydd yn ddiweddarach y gaeaf hwn?

Gallwn geisio peri i bob cartref ddefnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd, gan ddechrau â'r bobl hynny sydd fwyaf tebygol o ddisgyn i dlodi tanwydd, ond pan fydd prisiau tanwydd yn codi i'r entrychion, fel y gwnaethant dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rhaid ichi redeg yn gyflym iawn er mwyn aros yn eich unfan. Yr ydym wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith hawsaf yng nghydestun cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref. Yr ydym yn gwneud mwy o lawer bellach yn y maes hwnnw. Yr ydym wedi rhoi arian ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r un nesaf, fel y cofiwch o'r gyllideb ddiwethaf, ac yr ydym yn gobeithio y bydd hynny'n lleddfu'r broblem.

Jocelyn Davies: Ochr yn ochr â'r gwaith a wneir i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru, a wnewch ystyried, fel mater brys, yr angen i sicrhau bod synhwyrydd carbon monocsid ym mhob cartref?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn sicr ynghylch y sefyllfa o ran synwryddion, a all fod yn werthfawr iawn, yn enwedig mewn tai amlfeddiannaeth. Bydd yn rhaid imi ymchwilio i ddarganfod beth yw'r rheoliadau ar hyn o bryd, a gofynnaf i Edwina Hart ysgrifennu atoch.

Glyn Davies: Dros yr wythnosau diwethaf, bu llawer o drafod ar yr angen i wella safon llawer iawn o'n tai, yn enwedig tai sydd yn eiddo i'r sector cyhoeddus. A ydych yn cytuno ei bod yn hollbwysig inni gynyddu effeithlonrwydd ynni yn y tai hynny i'r eithaf wrth eu gwella? Byddai hynny o fudd enfawr nid yn unig i'r rhai sydd yn byw yn y tai hynny, o ran y costau y maent yn dioddef o'u herwydd, ond hefyd i'r amgylchedd ac o ran yr ymrwymiad y mae hynny'n ei ddangos i bawb arall.

Y Prif Weinidog: Mae gwres canolog sydd

heating, in being installed in local authority or housing association property, is a massive boon, not only to the occupant, but also to the carbon dioxide emission figures. It is important that we proceed with that task as far as we can, but it is all linked up with the Welsh housing quality standard and how quickly local authorities believe that they can bring their houses up to that standard. It is not such a problem, usually, for housing associations because they do not have the old stock going back to the 1920s and 1930s that councils have.

yn llosgi nwy, o'i osod yn nhai awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai, yn fendith fawr, nid yn unig i'r meddiannydd, ond hefyd o ran y ffigurau ar gyfer gollyngiadau carbon deuocsid. Mae'n bwysig inni barhau â'r gwaith hwnnw hyd y gallwn, ond mae'r cyfan yn ymwneud â safon ansawdd tai Cymru a pha mor gyflym y gall awdurdodau lleol godi eu tai at y safon honno, yn eu barn hwy. Nid yw'n gymaint o broblem i gymdeithasau tai, fel arfer, gan nad yw eu stoc mor hen â'r un o'r 1920au a'r 1930au sydd gan gynghorau.

Cymunedau yn Gyntaf Communities First

Q12 Leanne Wood: Will the First Minister state how many jobs have been created by the Communities First programme?
OAQ1869(FM)

C12 Leanne Wood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan faint o swyddi a grëwyd gan raglen Cymunedau yn Gyntaf?
OAQ1869(FM)

The First Minister: At the cost of possibly repeating myself, the answer is: 888 directly and many more thousands indirectly.

Y Prif Weinidog: Er ei bod yn bosibl fy mod yn ailadrodd hyn, yr ateb yw: 888 yn uniongyrchol a miloedd lawer yn rhagor yn anuniongyrchol.

Leanne Wood: Am I right in hearing you say that 888 jobs were created directly?

Leanne Wood: A wyf wedi'ch clywed yn iawn wrth ichi ddweud bod 888 o swyddi wedi'u creu'n uniongyrchol?

The First Minister: Yes.

Y Prif Weinidog: Ydych.

Leanne Wood: Those are the people employed directly by the programme, not the number of jobs created by the programme.

Leanne Wood: Dyna'r rhai sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y rhaglen, nid nifer y swyddi a grëwyd gan y rhaglen.

I have asked you and your Minister for Social Justice and Regeneration this question a number of times, yet neither of you seem to be able to answer it. Do you not think that Welsh taxpayers will find it astonishing that you set up this programme five years ago in order to create jobs and raise incomes, yet you cannot tell us whether it has created a single job? Perhaps you could answer a different question: how many members of staff in the Assembly's Communities First department hold community development qualifications?

Yr wyf wedi gofyn y cwestiwn hwn i chi ac i'ch Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio nifer o weithiau, ac eto nid yw'n ymddangos bod yr un ohonoch yn gallu ei ateb. Oni chredwch y bydd trethdalwyr Cymru'n synnu at y ffaith eich bod wedi sefydlu'r rhaglen hon bum mlynedd yn ôl er mwyn creu swyddi a chodi incwm pobl, ond na allwch ddweud wrthym a yw wedi creu'r un swydd? Efallai y gallech ateb cwestiwn gwahanol: pa sawl aelod o'r staff yn adran Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad sydd â chymwysterau datblygu cymunedol?

The First Minister: I could not tell you, but I am sure that we can find the answer to your second question, in which you, perhaps, have

Y Prif Weinidog: Ni allaf ddweud wrthy, ond yr wyf yn siŵr y gallwn ganfod yr ateb i'ch ail gwestiwn, y gallai fod gennyh

a particular professional interest; I do not know. The key thing about Communities First is that it is being evaluated at present. An evaluation of it started a few weeks ago, and, so far, that evaluation is positive about the scheme achieving its objectives. You may object to that; you may have a reason—perhaps political, perhaps not—for wanting to take a poke at the Communities First programme, saying, ‘We do not know how many jobs it has created’. However, those who are doing the job independently and without a party political interest are not knocking the scheme and they say that it is achieving its objectives.

Leighton Andrews: Do you agree that, instead of continually talking down the Communities First programme, we ought to be celebrating and saluting the work of those communities that are actively engaged in Communities First activities within their wards, and the hard work that goes in from Communities First development officers and co-ordinators the length and breadth of Wales? Do you recall coming to the Rhondda Valley earlier this year and seeing a project that has been developed within a Communities First ward, namely the new Soar Ffrwdamos Valleys Kids arts performance facility? It is a superb example of how communities coming together through voluntary organisations are not only developing new facilities, but also creating job opportunities.

The First Minister: It was an unforgettable visit, with the visit of the music team from a South African township. In fact, I think that Leanne Wood was there; but again, she would want to ask, ‘How many jobs did that create directly?’. I do not think that we know, but you could see the impact that it was having in increasing the self confidence not only of the kids—the rising generation of 14 and 15-year-olds who are going through that programme—but also of the community around Soar chapel.

3.00 p.m.

So, instead of thinking of their community as a community that they would like to get out of when they are 18 or 19-years-old, they

ddiddordeb proffesiynol penodol ynddo; ni wn. Y peth allweddol am raglen Cymunedau yn Gyntaf yw ei bod yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd. Dechreuwyd ei gwerthuso rai wythnosau'n ôl, a hyd yma bu'r gwerthusiad hwnnw yn gadarnhaol ynghylch gallu'r cynllun i gyflawni ei amcanion. Efallai eich bod yn gwrthwynebu hynny; efallai fod gennych reswm—un gwleidyddol o bosibl, neu un fel arall—dros ddymuno beirniadu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan ddweud, ‘Ni wyddom faint o swyddi y mae wedi’u creu’. Fodd bynnag, nid yw'r rhai sydd yn gweithio'n annibynnol a heb fuddiant mewn plaid wleidyddol yn beirniadu'r cynllun a dywedant ei fod yn cyflawni ei amcanion.

Leighton Andrews: A ydych yn cytuno mai'r hyn y dylem ei wneud, yn hytrach na bychanu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn barhaus, yw dathlu a chanmol gwaith y cymunedau hynny sydd yn ymwneud â gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn eu wardiau, a'r gwaith caled a wnaiff swyddogion datblygu a chydgylltwyr Cymunedau yn Gyntaf ar hyd a lled Cymru? A ydych yn cofio dod i Gwm Rhondda yn gynharach eleni a gweld prosiect a ddatblygwyd yn un o wardiau Cymunedau yn Gyntaf, sef cyfleuster perfformiadau celfyddydol Plant y Cymoedd yn Soar Ffrwdamos? Mae'n enghraifft wych o'r modd y mae cymunedau sydd yn dod at ei gilydd drwy gyrff gwirfoddol yn datblygu cyfleusterau newydd a hefyd yn creu cyfleoedd i gael swyddi.

Y Prif Weinidog: Yr oedd yn ymweliad bythgofiadwy, gydag ymweliad y tîm cerddoriaeth o dreflan yn Ne Affrica. A dweud y gwir, yr wyf yn credu bod Leanne Wood yno; ond eto, byddai am ofyn, ‘Faint o swyddi a greodd hynny'n uniongyrchol?’. Nid wyf yn credu ein bod yn gwybod, ond gallech weld effaith hynny o ran meithrin hunanhyder y plant—y to sydd yn codi o rai 14 a 15 mlwydd oed sydd yn mynd drwy'r rhaglen honno—yn ogystal â'r gymuned o gwmpas capel Soar.

Felly, yn lle meddwl am eu cymuned fel cymuned yr hoffent ddianc ohoni pan fyddant yn 18 neu'n 19 oed, byddent yn aros mewn

would stay in a community that they are proud of. That is at the heart of what community regeneration is all about.

cymuned y maent yn falch ohoni. Mae'n hynny'n ganolog i holl hanfod adfywio cymunedol.

Darparu Niwrolawdriniaeth The Provision of Neurosurgery

C13 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu niwrolawdriniaeth yn ne Cymru? OAQ1867(FM)

Q13 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the provision of neurosurgery in south Wales? OAQ1867(FM)

Y Prif Weinidog: Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yn hyn ar leoliad gwasanaethau niwrolawdriniaeth yn y de ar gyfer y dyfodol. Mae argymhellion adroddiad terfynol yr adolygiad o'r niwrowyddorau yn destun ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd, a'r prif amcan yw sicrhau bod gan dde Cymru wasanaethau niwrolawdriniaeth safonol, diogel a chynaliadwy.

The First Minister: No decision has yet been made on the location of neurosurgery services in south Wales for the future. The recommendations of the final report of the review of neurosciences are out for public consultation at present, and the aim is to ensure that south Wales has quality, safe and sustainable neurosurgery services.

David Lloyd: Gyda'r farn gyhoeddus yn lleol yn y de-orllewin—gan gynnwys barn meddygon a nyrsys—mor gryf o blaid cadw'r uned ar agor yn Ysbyty Treforys, a ydych yn dal i gefnogi'r alwad i gau'r uned?

David Lloyd: Given that local public opinion in south-west Wales—including the opinion of doctors and nurses—is so strongly in favour of retaining the unit at Morriston Hospital, do you still support the call to close the unit?

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi gwneud unrhyw safiad o gwbl ar y cwestiwn hwn, felly, y cwbl yr ydych yn ceisio'i wneud gyda'r honiad hwnnw yw pwyntio bys. Nid wyf yn credu fod hynny'n deilwng. Nid ydych wedi fy nghlywed yn rhoi fy safbwynt o gwbl, felly pam gwneud y fath honiad? Yr ydych yn ceisio ennill pleidleisiau rhad yn etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf.

The First Minister: I have made no stand at all on this issue, so all you are doing with that allegation is trying to point the finger. I do not believe that that is merited. You have not heard me make a stand, so why make such an allegation? You are trying to win cheap votes in next May's Assembly elections.

Val Lloyd: It is important to highlight the strength of public opinion about this issue. The recent Health Commission Wales proposal for neurosurgery has generated a great deal of dismay and anger in Swansea and beyond, with much concern about what is seen as the bias in the preferred option. Do you agree that the provision of adult neurosurgery needs to be considered together with other secondary and tertiary services across south and west Wales, so as to ensure the quality of, and access to, services for all patients across the regions that it is intended to serve?

Val Lloyd: Mae'n bwysig tynnu sylw at nerth y farn gyhoeddus am y mater hwn. Mae cynnig Comisiwn Iechyd Cymru yn ddiweddar o ran niwrolawdriniaeth wedi creu llawer iawn o siom a dicter yn Abertawe a thu hwnt, gyda llawer o bryder am yr hyn sy'n cael ei weld fel gogwydd yn yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. A ydych yn cytuno bod angen ystyried y ddarpariaeth niwrolawdriniaeth i oedolion ynghyd â gwasanaethau eilaidd a thrydyddol eraill ar draws de a gorllewin Cymru, er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaethau, a mynediad atynt, i'r holl gleifion ar draws y rhanbarthau y maent i fod i'w gwasanaethu?

The First Minister: Of course. We are all aware that the formal public consultation ends on 30 October, and that the project board will then meet on 17 November to discuss the consultation responses. If there is agreement on the proposals, it will then be reported to the National Commissioning Advisory Board in December. If the community health council does not agree, it will signal its intent not fewer than six weeks after the end of that consultation period, which will be around 11 December. It can contest the proposals if it has concern about the conduct of the consultation or if it believes that the substantial changes would not be in the interest of patients in the area.

Alun Cairns: First Minister, in order to send a strong, united message to the Minister for Health and Social Services on this issue, I have tabled a statement of opinion that some Labour Members have agreed to support. However, I find it rather inconsistent that some members of your Cabinet are prepared to make strong statements in public, but are not prepared to sign this statement of opinion, which would send a united message to the Minister for Health and Social Services. There would need to be strong consideration if all Assembly Members from south-west Wales were united in rejecting any—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I wish that Alun Cairns had asked the supplementary question that he was about to ask rather than that one, because I cannot recognise his first question as being a supplementary question that is appropriate to Ministers, or even to me. There are many of us here who are unable, or unwilling, for whatever reason, to sign such statements. Some of us are in the category of being unable to do so, because of our position. Therefore, you should not impugn the integrity—not that I am suggesting that you would do so—of those of us who, for reasons of our jobs here, are unable to sign written statements of opinion, because of joint Cabinet responsibility in relation to codes of conduct for Ministers, Standing Orders or any other issue. I am sure that you would not want us to be seen to be falling down on our duty. I will, therefore, ask you to save yourself from further embarrassment by asking the supplementary

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Yr ydym i gyd yn ymwybodol bod yr ymgynghori cyhoeddus yn dod i ben ar 30 Hydref, ac y bydd y bwrdd prosiect yn cwrdd wedyn ar 17 Tachwedd i drafod yr ymatebion. Os oes cytundeb ynglŷn â'r cynigion, caiff hynny ei adrodd i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gomisiynu ym mis Rhagfyr. Os nad yw'r cyngor iechyd cymuned yn cytuno, bydd yn dweud beth y mae'n bwriadu ei wneud ddim llai na chwe wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, fydd tua 11 Rhagfyr. Gall herio'r cynigion os oes ganddo bryder am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad neu os yw'n credu na fyddai'r newidiadau sylweddol er lles cleifion yn yr ardal.

Alun Cairns: Brif Weinidog, er mwyn anfon neges gref, unedig at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwn, yr wyf wedi cyflwyno datganiad barn y mae rhai Aelodau Llafur wedi cytuno i'w gefnogi. Fodd bynnag, credaf ei bod braidd yn anghyson bod rhai aelodau o'r Cabinet yn barod i wneud datganiadau cryf yn gyhoeddus, ond nad ydynt yn barod i lofnodi'r datganiad barn hwn, a fyddai'n anfon neges unedig at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai angen ystyriaeth gref pe bai holl Aelodau'r Cynulliad o'r de-orllewin yn uno i wrthod unrhyw—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Hoffwn pe bai Alun Cairns wedi gofyn y cwestiwn atodol yr oedd ar fin ei ofyn yn hytrach na'r un hwnnw, oherwydd ni allaf weld bod ei gwestiwn cyntaf yn gwestiwn atodol sy'n briodol i Weinidogion, na hyd yn oed i mi. Mae llawer ohonom yma nad ydym yn gallu, neu nad ydym yn barod, am ba reswm bynnag, i lofnodi datganiadau o'r fath. Mae rhai ohonom yn y categori nad ydym yn gallu gwneud hynny, oherwydd ein swydd. Felly, ni ddylech amau gonestrwydd—nid fy mod yn awgrymu y byddech yn gwneud hynny—y rhai ohonom sydd, oherwydd ein swyddi yma, yn methu lofnodi datganiadau barn ysgrifenedig, oherwydd cyd-gyfrifoldeb y Cabinet o ran codau ymddygiad i Weinidogion, Rheolau Sefydlog neu unrhyw fater arall. Yr wyf yn siŵr na fyddech am inni gael ein gweld yn methu yn ein dyletswydd. Yr wyf, felly, yn gofyn ichi osgoi achosi annifyrrwch pellach i chi eich

question that you were about to ask. I am sure that it will be a much better question than the previous one.

Alun Cairns: First Minister, do you agree that calls by some Members for a much wider review of tertiary services are nothing more than an attempt to kick this subject into the long grass until after the next Assembly elections? Why is it that your chief whip gives instructions to Cabinet members not to sign statements of opinion?

The Presiding Officer: Order. You spoilt it with the last bit. The First Minister will disregard the last bit of that supplementary question and I am sure that he will answer the middle bit.

The First Minister: The critical point is that we should all accept that this is a decision that has to be taken on clinical grounds—what provides the best service for the maximum number of patients requiring neurosurgery in a safe, professional and sustainable way. It would be in the best interests of patients of Wales, as well as the NHS in Wales, if we all tried to abjure trying to score political points out of it.

hun drwy ofyn y cwestiwn atodol yr oeddech ar fin ei ofyn. Yr wyf yn siŵr y bydd yn llawer gwell cwestiwn na'r un blaenorol.

Alun Cairns: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno nad yw'r galwadau gan rai Aelodau am adolygiad llawer ehangach o'r gwasanaethau trydyddol yn ddim ond ymgais i fwrw'r pwnc hwn o'r neilltu tan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad? Pam mae eich prif chwip yn gorchymyn aelodau'r Cabinet i beidio â llofnodi datganiadau barn?

Y Llywydd: Trefn. Fe'i difethasoch gyda'r darn olaf. Bydd y Prif Weinidog yn anwybyddu darn olaf y cwestiwn atodol hwnnw ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff ateb y darn canol.

Y Prif Weinidog: Y pwynt tyngedfennol yw y dylai pawb ohonom dderbyn bod hwn yn benderfyniad y mae'n rhaid ei wneud am resymau clinigol—yr hyn sy'n darparu'r gwasanaeth gorau i'r nifer fwyaf o gleifion y mae angen niwrolawdriniaeth arnynt mewn ffordd ddiogel, broffesiynol a chynaliadwy. Byddai er lles cleifion yng Nghymru, yn ogystal â'r GIG yng Nghymru, pe baem i gyd yn ymatal rhag ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol yn sgîl hyn.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Colli Swyddi yn Etholaeth Ogwr Job Losses in the Ogmore Constituency

Janice Gregory: Will the Minister make a statement on job losses in the Ogmore constituency? EAQ1058(EIN)

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golli swyddi yn etholaeth Ogwr? (EAQ0984(EIN))

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): The recent announcements of job losses at Cooper Standard Automotive Ltd and Valewood Furniture Ltd are regrettable. My officials are in dialogue with both companies, and every effort is being made to work closely with them, and their employees, to see what further support can be provided.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Mae'r cyhoeddiadau yn ddiweddar ynglŷn â cholli swyddi yn Cooper Standard Automotive Ltd a Valewood Furniture Ltd yn destun gofid. Mae fy swyddogion yn trafod gyda'r ddau gwmni, ac mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i weithio'n agos gyda hwy, a'u gweithwyr, i weld pa gymorth pellach y gellir ei roi.

Janice Gregory: The announcement relating to Cooper Standard Automotive Ltd has been a severe blow to its highly skilled, loyal and

Janice Gregory: Mae'r cyhoeddiad ynglŷn â Cooper Standard Automotive Ltd wedi bod yn ergyd ddifrifol i weithwyr medrus,

hard-working employees. The importance of this factory cannot be underestimated—it has a long history in Maesteg, and generations of the same families work there. Its excellent location in the town centre means that many workers are able to walk to work, which is unusual in this day and age; it is a convenient site that is a real gem in the Llynfi valley crown.

Following the announcement, I have had discussions with the company and the GMB trade union. During these discussions, it was emphasised that every effort must be made to retain these 250 jobs in the Llynfi valley. Do you agree, therefore, that we must now concentrate our efforts on securing this outcome? Will you also agree to meet with me, representatives of the GMB trade union, and the company, to discuss this further, and to explore all the options, including possibilities for the factory site, as I understand that the company owns the site?

On Valewood Furniture Ltd, thank you for your assistance, and that of your department, to the company to date. The fact that the company lost a major customer made it difficult for it to continue trading. Again, Valewood Furniture Ltd has been a well-respected, long-term employer in the constituency, and, despite all their best efforts, the directors find themselves in this most difficult of positions. Can I have your assurance here today, Minister, that you will give every assistance to both these companies, so that my constituents can be assured that the Welsh Assembly Government is taking this threat to their jobs seriously?

Andrew Davies: I am more than happy to give those assurances, and also to meet with the GMB union, as I have done with other Members on other occasions. We will do everything that we can to keep the operation in the Llynfi valley, or, if the redundancies go ahead, to help by working with the Bridgend redundancy response programme, and other departments, including Jobcentre Plus, to work with those affected, to help them into other employment, or into training.

teyrngar a diwyd y cwmni. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y ffatri hon—mae ganddi hanes hir ym Maesteg, ac mae cenedlaethau o'r un teuluoedd yn gweithio yno. Mae ei lleoliad rhagorol yng nghanol y dref yn golygu bod llawer o weithwyr yn gallu cerdded i'r gwaith, sy'n anarferol yn yr oes hon; mae'n safle hwylus sy'n gaffaeliad gwirioneddol i gwm Llynfi.

Wedi i'r cyhoeddiad gael ei wneud, yr wyf wedi cynnal trafodaethau gyda'r cwmni ac undeb llafur y GMB. Yn ystod y trafodaethau hyn, pwysleisiwyd bod yn rhaid gwneud pob ymdrech i gadw'r 250 o swyddi yng nghwm Llynfi. A ydych yn cytuno, felly, fod yn rhaid inni ganolbwyntio ein hymdrechion yn awr ar sicrhau'r canlyniad hwn? A wnewch gytuno hefyd i gwrdd â mi, cynrychiolydd undeb llafur y GMB, a'r cwmni, i drafod hyn ymhellach, ac i archwilio'r holl opsiynau, gan gynnwys posibiladau ar gyfer safle'r ffatri, gan fod y cwmni, yn ôl a ddeallaf, yn berchen ar y safle?

O ran Valewood Furniture Ltd, diolch ichi am eich cymorth, ac am gymorth eich adran, i'r cwmni hyd yma. Fe'i gwnaed yn anodd i'r cwmni barhau i fasnachu gan y ffaith iddo golli cwsmer mawr. Eto, mae Valewood Furniture Ltd wedi bod yn gyflogwr uchel ei barch, ers amser maith, yn yr etholaeth ac, er iddynt ymdrechu eu gorau glas, mae'r cyfarwyddwyr yn eu cael eu hunain yn y sefyllfa hynod anodd hon. A gaf sicrwydd gennych yma heddiw, Weinidog, y byddwch yn rhoi pob cymorth i'r ddau gwmni hyn, fel y gall fy etholwyr fod yn sicr bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd y bygythiad hwn i'w swyddi o ddifrif?

Andrew Davies: Yr wyf yn fwy na pharod i roi'r sicrwydd hwnnw, a hefyd i gwrdd ag undeb y GMB, fel yr wyf wedi gwneud gydag Aelodau eraill ar achlysuron eraill. Fe wnawn bopeth a allwn i gadw'r gwaith yng nghwm Llynfi, neu, os bydd y swyddi'n cael eu dileu, i helpu drwy weithio gyda rhaglen ymateb i ddileu swyddi Pen-y-bont ar Ogwr, ac adrannau eraill, gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, i weithio gyda'r rhai yr effeithir arnynt, i'w helpu i gael cyflogaeth arall, neu hyfforddiant.

We have worked hard when we have been faced with other major redundancies; most recently, in your area, at the Sony television manufacturing plant, we were successful in working with the company and the unions to help all those who wanted alternative work into work—many of whom got jobs that paid a higher salary than they received at Sony. Therefore, despite this present sad news, we will do everything that we can to turn the situation around.

Janet Davies: I join you and Janice Gregory, Minister, in saying how much we regret these job losses, and in giving sympathy to the families affected. Janice Gregory has already said how long-standing Cooper Standard Automotive Ltd has been in Maesteg, and I am glad to hear that you are doing everything that you can to try to diminish the effects of these job losses.

However, I have raised employment in the Bridgend valleys in general ever since I have been an Assembly Member—I raise it from time to time. You, and, at times, the First Minister, have been bullish and confident about employment in those valleys, so it is unfortunate that these job losses have been announced. Do you believe that, as well as looking immediately at what is happening in the plants concerned, you should take a harder look at all the Bridgend valleys, to see the condition of the employment there, to see the number of economically inactive people, and the low wages in those valleys, and to see whether anything can be done on a wider scale to help with employment?

3.10 p.m.

Andrew Davies: The First Minister and I have been robust about the position because, if you look at the official statistics for the Ogmore constituency, the latest claimant count is 2.6 per cent compared with an all-Wales level of 2.5 per cent. Therefore, the employment situation in the Bridgend travel-to-work area is robust. As I said in my response to Janice Gregory, we are confident that the demand for labour, particularly in manufacturing, is still robust. If the

Yr ydym wedi gweithio'n galed pan fu dileu swyddi ar raddfa fawr mewn mannau eraill; yn fwyaf diweddar, yn eich ardal chi, yng ngwaith cynhyrchu setiau teledu Sony, llwyddasom i weithio gyda'r cwmni a'r undebau i helpu pawb a oedd am gael gwaith arall i ddod o hyd i waith—a chafodd llawer ohonynt swyddi a oedd yn talu cyflog uwch na'r hyn a gaent yn Sony. Felly, er gwaethaf y newydd trist hwn ar hyn o bryd, byddwn yn gwneud popeth a allan i wella'r sefyllfa.

Janet Davies: Yr wyf yn ymuno â chi a Janice Gregory, Weinidog, wrth ddweud cymaint o destun gofid yw colli'r swyddi hyn, ac wrth gydymdeimlo â'r teuluoedd yr effeithir arnynt. Mae Janice Gregory eisoes wedi dweud bod Cooper Standard Automotive Ltd wedi bod ym Maesteg ers tro byd, ac yr wyf yn falch o glywed eich bod yn gwneud popeth a allwch i leihau effeithiau colli'r swyddi hyn.

Fodd bynnag, yr wyf wedi codi mater cyflogaeth yng nghymoedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol ers imi fod yn Aelod Cynulliad—byddaf yn ei godi o bryd i'w gilydd. Yr ydych chi, ac, ar adegau, y Prif Weinidog, wedi bod yn ffyddiog a hyderus ynghylch cyflogaeth yn y cymoedd hynny, felly mae'n anffodus bod cyhoeddiad wedi'i wneud ynghylch colli'r swyddi hyn. Yn ogystal ag edrych ar unwaith ar yr hyn sy'n digwydd yn y ffatrioedd dan sylw, a ydych yn credu y dylech edrych yn fanylach ar holl gymoedd Pen-y-bont, i weld cyflwr cyflogaeth yno, i weld nifer y bobl sy'n anweithgar yn economaidd, a'r cyflogau isel yn y cymoedd hynny, ac i weld a ellir gwneud rhywbeth ar raddfa ehangach i helpu gyda chyflogaeth?

Andrew Davies: Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi bod yn gadarn am y sefyllfa oherwydd, os edrychwch ar yr ystadegau swyddogol ar gyfer etholaeth Ogwr, mae'r cyfrif diweddaraf o ran y nifer sy'n hawlio budd-dal yn 2.6 y cant o'i gymharu â lefel Cymru gyfan o 2.5 y cant. Felly, mae'r sefyllfa o ran cyflogaeth yn ardal teithio i'r gwaith Pen-y-bont yn gryf. Fel y dywedais yn fy ymateb i Janice Gregory, yr ydym yn hyderus bod y galw am lafur, yn enwedig

redundancies go ahead, we will be able to help those who are seeking work into alternative employment.

Peter Black: Like the previous speakers, I express my sympathy for the workers in the predicament that they now face. The situation in Maesteg is that a lot of jobs have been lost this year and many people are looking for work. This is a deprived area, where 37 per cent of the people who live there do not own a car. Although there is a regular rail service to Bridgend, there are issues about transport in terms of finding jobs. When you work with the local council and the various agencies that will be trying to relocate these workers and put them into jobs, can you take this into consideration? Transport issues can often act as a bar to people being able to get to interviews, as well as being able to take up job offers. It is important that we try to address the transport issues as part of that.

Andrew Davies: That is an important and valid point. Transport links are extremely important, and that is why, as a Government, through my department, we are investing record levels of investment into improving transport links in the Valleys, particularly on the Valley lines. The Maesteg service is one that we are supporting with Arriva Trains Wales, and we will continue to do so, working with the local authorities and the regional transport consortium—the South East Wales Transport Alliance. With the publication of the Wales transport strategy, which is out for consultation, we are looking at strategic investments over the coming decades, which will, I hope, address any deficiencies that there are in the Valleys in particular.

Alun Cairns: I support the comments that have been made in relation to the job losses, but we also need to look closely at the trend. We have reached an unwelcome landmark, in that 3,000 manufacturing jobs have been lost since April. That is a scale that is unprecedented in recent times. Do you not recognise that something is going wrong? I can understand that many manufacturers may

mewn gweithgynhyrchu, yn gryf o hyd. Os bydd y swyddi'n cael eu dileu, gallwn helpu'r rhai sy'n chwilio am waith i gael swyddi eraill.

Peter Black: Fel y siaradwyr blaenorol, mynegaf fy nghydymdeimlad â'r gweithwyr yn y sefyllfa anodd sy'n eu hwynebu'n awr. Y broblem ym Maesteg yw bod llawer o swyddi wedi cael eu colli eleni a bod llawer o bobl yn chwilio am waith. Mae hon yn ardal ddifreintiedig, lle nad yw 37 y cant o'r bobl sy'n byw yno yn berchen ar gar. Er bod gwasanaeth trên rheolaidd i Ben-y-bont, mae problemau'n ymwneud â thrafnidiaeth o ran dod o hyd i swyddi. Wrth ichi weithio gyda'r cyngor lleol a'r gwahanol asiantaethau a fydd yn ceisio adleoli'r gweithwyr hyn a chael swyddi iddynt, a allwch gadw hyn mewn cof? Mae problemau o ran trafndiaeth yn aml yn gallu bod yn rhwystr i bobl rhag mynd i gyfweiliadau, yn ogystal â gallu manteisio ar swyddi a gynigir. Mae'n bwysig inni geisio rhoi sylw i'r problemau o ran trafndiaeth fel rhan o hynny.

Andrew Davies: Mae hynny'n bwynt pwysig a dilys. Mae cysylltiadau trafndiaeth yn hynod o bwysig, a dyna pam, fel Llywodraeth, drwy fy adran, yr ydym yn buddsoddi lefelau na welwyd eu tebyg ar wella'r cysylltiadau trafndiaeth yn y Cymoedd, yn enwedig ar reilffyrdd y Cymoedd. Mae gwasanaeth Maesteg yn un yr ydym yn ei gefnogi ynghyd â Threnau Arriva Cymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r consortiwm trafndiaeth rhanbarthol—Cynghrair Trafndiaeth De-ddwyrain Cymru. Yn sgîl cyhoeddi strategaeth drafndiaeth Cymru, sy'n destun ymgynghori, yr ydym yn ystyried buddsoddiadau strategol dros y degawdau i ddod a fydd, gobeithio, yn rhoi sylw i unrhyw ddiffygion sydd yn y Cymoedd yn arbennig.

Alun Cairns: Cefnogaf y sylwadau sydd wedi cael eu cyflwyno ynglŷn â cholli'r swyddi, ond mae angen inni edrych yn agos hefyd ar y duedd. Yr ydym wedi cyrraedd carreg filltir annymunol, sef bod 3,000 o swyddi gweithgynhyrchu wedi cael eu colli ers mis Ebrill. Mae hynny ar raddfa na welwyd ei thebyg yn y cyfnod diweddar. Onid ydych yn cydnabod bod rhywbeth yn

well move to some of the eastern bloc countries, as happened with the Cooper Standard Automotive Ltd jobs, but—and this is the most worrying factor—some of those jobs are going to France. France is a developed nation like the United Kingdom and like Wales, so it will not be competing on the basis of cost. It could well be competing on offering a better economic environment in which a company can compete. Does that not tell you something? Does it not worry you that we have achieved that unprecedented job-loss trend in the manufacturing sector, confirming why we are the poorest region of the United Kingdom?

Andrew Davies: On your last point, I do not accept that Wales is the poorest part of the UK. If you look at a range of indicators, such as gross domestic household income, which is the most important factor for people—what the family or household income is—as opposed to GVA figures at an all-Wales level, Wales is not the poorest part of the UK. If you look at average weekly earnings, growth and a whole range of other indicators, Wales is outperforming most other parts of the UK; that is certainly true of the comparative parts, given our industrial history.

I would not agree that Wales is uncompetitive in terms of the business environment. You should look at the investments that have been made in the travel-to-work area of Bridgend alone, with Sony's investment in high-definition television, film and studio camera production at Pencoed, or the 300 jobs that the Bosch Group has created over the last 12 months. Those are two examples and I could give you a much longer list of investments that have produced increased employment in manufacturing, but manufacturing is changing, as I have said previously. However, to say that these jobs have been lost, as I think that you said publicly before, because of the merger of the WDA with the Assembly Government and my department, is economic illiteracy and shows a complete lack of understanding as to why companies make the decisions that they make. My

mynd o'i le? Gallaf ddeall y byddai llawer o weithgynhyrchwyr yn symud i wledydd bloc y dwyrain, fel a ddigwyddodd gyda swyddi Cooper Standard Automotive Ltd, ond—a dyma'r ffactor sy'n peri'r gofid mwyaf—mae rhai o'r swyddi hynny'n mynd i Ffrainc. Mae Ffrainc yn wlad ddatblygedig fel y Deyrnas Unedig a Chymru, felly ni fydd yn cystadlu ar sail cost. Mae'n gwbl bosibl ei bod yn cystadlu ar sail cynnig gwell amgylchedd economaidd y gall cwmni gystadlu ynddo. Ond yw hynny'n dweud rhywbeth wrthyf? Onid yw'n eich poeni ein bod wedi cyrraedd y duedd hon na welwyd ei thebyg o ran colli swyddi yn y sector gweithgynhyrchu, sy'n cadarnhau pam mai ni yw'r rhanbarth tlotaf yn y Deyrnas Unedig?

Andrew Davies: O ran eich pwynt olaf, nid wyf yn derbyn mai Cymru yw'r rhan dlotaf o'r DU. Os edrychwch ar ystod o ddangosyddion, fel incwm mewnwladol crynswth aelwydydd, sef y ffactor pwysicaf i bobl—beth yw incwm y teulu neu'r aelwyd—yn hytrach na ffigurau GYC ar lefel Cymru gyfan, nid Cymru yw'r rhan dlotaf o'r DU. Os edrychwch ar enillion wythnosol ar gyfartaledd, twf, ac ystod eang o ddangosyddion eraill, mae Cymru'n perfformio'n well na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU; mae hynny'n sicr yn wir am y rhannau cymharol, o ystyried ein hanes diwydiannol.

Ni fyddwn yn cytuno nad yw Cymru'n gystadleuol o ran yr amgylchedd busnes. Dylech edrych ar y buddsoddiadau sydd wedi cael eu gwneud yn ardal teithio i'r gwaith Pen-y-bont yn unig, gyda buddsoddiad Sony ym maes cynhyrchu camerâu ffilm a stiwdio a setiau teledu manylder uwch ym Mhen-coed, neu'r 300 o swyddi a grëwyd gan Grŵp Bosch dros y 12 mis diwethaf. Mae hynny'n ddwy enghraifft a gallwn roi rhestr hwy o lawer ichi o fuddsoddiadau sydd wedi arwain at fwy o gyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu, ond mae gweithgynhyrchu'n newid, fel yr wyf wedi dweud cyn hyn. Fodd bynnag, mae dweud bod y swyddi hyn wedi cael eu colli, fel y credaf ichi ddweud yn gyhoeddus o'r blaen, o ganlyniad i uno'r awdurdod datblygu â Llywodraeth y Cynulliad a'm hadran i, yn anllythrennedd economaidd ac yn dangos diffyg dealltwriaeth yn gyfan gwbl o'r

understanding is that, in most cases, and particularly this one, they are making decisions that are in their own financial and commercial interests, not because of a lack of support from us as a Government.

rheswm pam mae cwmnïau'n gwneud y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, gan amlaf, ac yn enwedig yn yr achos hwn, maent yn gwneud penderfyniadau sydd er budd ariannol a masnachol iddynt hwy, nid oherwydd diffyg cefnogaeth gennym ni fel Llywodraeth.

Datganiad Busnes Business Statement

The Deputy Presiding Officer has determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration:

Mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth i bwyllgor pwnc am ystyriaeth estynedig:

The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2006;

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006;

The Traffic Management Act 2004 (Commencement No.1) (Wales) Order 2006;

Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006;

The Supply of Student Support Information to Governing Bodies (Wales) Regulations 2006;

Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006;

The Street Works (Reinstatement) (Amendment) (Wales) Regulations 2006;

Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006;

The Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (No. 2) Regulations 2006;

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygiadau Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006;

The Food (Emergency Control) (Revocation) (Wales) Regulations 2006;

Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006;

The National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (No. 2) Regulations 2006.

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2006.

The Business Minister (Jane Hutt): I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which should be available to Members on the agenda.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Nid oes gennyf ddim newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi ei nodi yn y datganiad drafft, a ddylai fod ar gael i'r Aelodau ar yr agenda.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes sylwadau ar y datganiad busnes?

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are not. Are there any comments on the statement?

Elin Jones: Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi gofyn y bore yma am ddatganiad ar gyllideb Tir Mynydd ac yr ydym yn siomedig nad ydych wedi cynnwys y datganiad hwnnw yn y datganiad busnes y prynhawn yma.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi cyhoeddi ei fod yn torri £12 miliwn o gyllideb Tir Mynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gan ddweud bod pwysau ariannol ar ei gyllideb yn mynnu ei fod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ffigurau sydd ar gael yn awr fod digon o arian yn ei gyllideb i dalu yn llawn am gynllun Tir Mynydd eleni, i'r un graddau ag a wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Pam felly y mae'r Gweinidog wedi torri cyllideb Tir Mynydd, os nad oedd pwysau ariannol arno i wneud hynny? Beth, os unrhyw beth, y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud gyda'r £12 miliwn sy'n eistedd yn ei gyllideb?

Cyfeiriodd sawl siaradwr arall—Elin Jones, Janet Ryder, Dai Lloyd, Kirsty Williams, Alun Cairns a Denise Idris Jones—at yr ymateb aruthrol yn y gymuned yn erbyn y cynigion hyn fel y maent, yn enwedig yn y Canolbarth a'r Gorllewin ac yn y gogledd, ond yr wyf yn meddwl bod hynny'n wir ym mhobman, fel y clywsom heddiw. Yr wyf yn meddwl hefyd fod y gwahanol adweithiau i'r pryderon hynny gan y cyrff iechyd mewn gwahanol rannau o Gymru'n ddi-ddorol. Mae'r gogledd fel petai'n benderfynol o fwrw ymlaen, tra bod ailedrych ar y broses yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Mae rhai yn ein plith sydd yn credu efallai mai dim ond mater o fwrw'r broses o'r neilltu yw hyn oherwydd y seddi ymylol y gallai effeithio arnynt. Efallai fod y Llywodraeth hithau'n teimlo bod seddi yn y gogledd yn llai ymylol, ond efallai y bydd yn cael ambell syndod. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn glir na ddylai hyn fod yn agenda sy'n cael ei hysgogi gan wleidyddiaeth plaid o du neb.

Leighton Andrews: A dderbyniwch ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Helen Mary Jones: Deuaf yn ôl atoch mewn munud, os bydd gennyf amser.

Yr wyf yn falch y bydd y grŵp Llafur a'r Gweinidog yn cefnogi hyn, ond nid yw'n ddigon i'r Gweinidog ei gefnogi'n unig, rhaid iddo weithredu. Mae arnaf ofn imi synhwyro rhyw hunanfodlonrwydd yn ei ymateb, sydd yn peri pryder imi—ac nid wyf yn amau dim na fydd yn peri pryder i rai o'i gyd-Aelodau Llafur hefyd. Ildiaf i Leighton.

Leighton Andrews: I heard you say that this should not be a party-political matter. Would you, therefore, condemn a leaflet that has been circulated by Plaid Cymru in my constituency, which says that Labour is threatening to close the new Glamorgan hospital? There has been no proposal to close the Royal Glamorgan Hospital. That is a lie. Will you condemn that lie circulated by Plaid Cymru in the Rhondda?

Helen Mary Jones: It sounds remarkably like some of the things that your colleagues have been saying in seats in west Wales and, no, I will do nothing of the kind. These are decisions that are, ultimately, made by Ministers. I will come to that in a moment.

I am concerned that the Minister, in supporting this in principle, appears to be taking a complacent line. He seems to misunderstand the motion, which says no reconfiguration until community services are in place. The Minister needs to understand how low the faith in health decision makers is across Wales. In Llanelli, I have not met anyone who trusts the NHS trust.

People suspect that this is being driven by a cost-cutting agenda. Of course, resources are not endless and there is no doubt that they need to be directed. However, I cannot refer to resources without making reference to the Barnett formula. I know that the Government benches find this tedious but the fact is that, if funding for the Assembly were based on need and not on numbers, we would have more to provide for the health needs of our people. We also have the debt of £100 million run up by our health bodies that the Minister seems to be doing little to address. Be that as it may, the Minister needs to take a lead if he and his colleagues are to support this motion. A series of projects is all very well but he needs to understand that we need a national approach; we need some leadership. The Minister needs to take a lead to ensure that all future changes in NHS services are based on the principle that we established today, and, to do that, he needs to understand that this has not been the case thus far.

Leighton Andrews: Fe'ch clywais yn dweud na ddylai hyn fod yn fater gwleidyddiaeth plaid. A wnewch, felly, gondemnio taflen sydd wedi'i dosbarthu gan Blaid Cymru yn fy etholaeth, sydd yn dweud bod Llafur yn bygwth cau ysbyty newydd Morgannwg? Ni fu dim cynnig i gau Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Celwydd yw hynny. A wnewch gondemnio'r celwydd hwnnw a gylchredwyd gan Blaid Cymru yn y Rhondda?

Helen Mary Jones: Mae'n swnio'n hynod o debyg i rai o'r pethau y mae eich cyd-Aelodau wedi bod yn eu dweud mewn seddi yn y gorllewin, a na, ni wnaif ddim byd o'r fath. Penderfyniadau yw'r rhain a wneir yn y pen draw gan Weinidogion. Deuaf at hynny mewn munud.

Yr wyf yn bryderus bod y Gweinidog, wrth gefnogi hyn mewn egwyddor, fel petai'n cymryd agwedd hunanfodlon. Mae fel petai'n camddeall y cynnig, sy'n dweud na ddylai fod dim ailgyflunio nes y bydd gwasanaethau cymunedol wedi'u sefydlu. Mae angen i'r Gweinidog ddeall cyn lleied o ffydd sydd yn y rhai sydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch iechyd ledled Cymru. Yn Llanelli, nid wyf wedi cwrdd â neb sydd yn ymddiried yn yr ymddiriedolaeth GIG.

Mae pobl yn amau bod hyn yn cael ei symbylu gan agenda torri costau. Wrth gwrs, nid yw adnoddau'n ddiderfyn ac nid oes dwywaith nad oes angen eu cyfeirio. Fodd bynnag, ni allaf gyfeirio at adnoddau heb sôn am fformiwla Barnett. Gwn fod hyn yn ddiflas i feinciau'r Llywodraeth ond y ffaith yw, pe bai cyllid y Cynulliad wedi'i seilio ar angen ac nid ar rifau, y byddai gennym fwy i ddarparu ar gyfer anghenion iechyd ein pobl. Mae'r ddyled o £100 miliwn gennym hefyd, sydd wedi'i chreu gan ein cyrff iechyd, nad ymddengys fod y Gweinidog yn gwneud fawr ddim yn ei chylch. Boed hynny fel y bo, mae angen i'r Gweinidog ddangos arweiniad os ydyw ef a'i gyd-Aelodau am gefnogi'r cynnig hwn. Popeth yn dda o gael cyfres o brosiectau, ond mae angen iddo ddeall bod angen inni edrych ar hyn yn genedlaethol; mae angen arweiniad. Mae angen i'r Gweinidog roi arweiniad er mwyn sicrhau y seilir pob newid yng ngwasanaethau'r GIG yn y dyfodol ar yr egwyddor yr ydym wedi'i sefydlu heddiw, ac i wneud hynny, mae

angen iddo ddeall nad felly y mae wedi bod hyd yma.

People's expectations are quite simple: they want good-quality health services provided as close as possible to their homes. The Minister needs to ensure that people in communities across Wales are meaningfully involved in the debate about how this can best be achieved. The Minister says that people have not been presented with a *fait accompli*. He must understand that that is how they feel even if it is not so, and that the confidence in the health bodies to listen and respond is low, as Jenny Randerson said.

Mae disgwyliadau pobl yn eithaf syml: mae arnynt eisiau gwasanaethau iechyd o ansawdd da wedi'u darparu mor agos ag y bo modd at eu cartrefi. Mae angen i'r Gweinidog sicrhau y caiff pobl mewn cymunedau ledled Cymru lais ystyrllon yn y ddaidl ynghylch beth yw'r dull gorau o gyflawni hyn. Dywed y Gweinidog nad oes *fait accompli* wedi'i gyflwyno i bobl. Rhaid iddo ddeall mai dyna sut y maent yn teimlo hyd yn oed os nad felly y mae, ac nad oes fawr o hyder yn y cyrff iechyd i wrando ac ymateb, fel y dywedodd Jenny Randerson.

The Minister needs to ensure that people are meaningfully consulted, which means stopping this process and starting it again. It is his responsibility. He appoints those who sit on the various boards, or sets the terms of reference on which they are appointed, the policy frameworks, targets, priorities, and the budget. Therefore, he is in charge.

Mae angen i'r Gweinidog sicrhau yr ymgynghorir â phobl mewn modd ystyrllon, sy'n golygu atal y broses hon ac aildechrau arni. Ei gyfrifoldeb ef ydyw. Ef sy'n penodi'r rhai sydd yn eistedd ar y gwahanol fyrddau, neu sy'n pennu'r cylch gorchwyl y'u penodir i'w gyflawni, y fframweithiau polisi, y targedau, y blaenoriaethau, a'r gyllideb. Felly, ef sydd wrth y llyw.

I stress again that the motion is deliberately worded in such a way so as to get support across the Assembly, and I sincerely hope that carrying the motion will lead to a new beginning in how we debate the future of our health services in this nation. It will be a beginning based on trust, in an open and transparent process that is in the best interests of us all—all users of these services, as well as those who make decisions about them. The new process should be based on the principle that services should not be withdrawn until proper alternatives are planned and ready to go.

Pwysleisiaf eto fod y cynnig wedi'i eirio'n fwriadol yn y fath fodd fel ei fod yn cael cefnogaeth ar draws y Cynulliad, a gobeithiaf yn ddiffuant y bydd derbyn y cynnig yn arwain at gychwyn o'r newydd o ran sut yr ydym yn trafod dyfodol ein gwasanaethau iechyd yn y genedl hon. Bydd yn gychwyn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, mewn proses agored a thryloyw sydd er budd inni i gyd—pawb sydd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Dylai'r broses newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid tynnu gwasanaethau yn ôl nes y bydd gwasanaethau eraill priodol wedi'u cynllunio ac yn barod i ddechrau.

Given that the delivery of this motion of principle is in the hands of a Labour Assembly Government that has broken its promise on homecare, and has presided over the development of a labyrinthine, costly decision-making process in health, which is the opposite of transparent and accountable, I am not sanguine. However, let me reassure the Assembly. If the Minister does not act, he will be subject to further opposition debates tabled on this matter where we will seek to

Gan fod cyflawni'r cynnig hwn o egwyddor yn nwylo Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad sydd wedi torri'i haddewid ar ofal cartref, ac wedi bod wrth y llyw wrth i broses ddryslyd a chostus gael ei datblygu o ran gwneud penderfyniadau ym maes iechyd, sef y gwrthwyneb i fod yn dryloyw ac atebol, nid wyf yn ffyddiog. Fodd bynnag, gadewch imi sicrhau'r Cynulliad. Os na weithreda'r Gweinidog, fe gyflwynir dadleuon pellach gan y gwrthbleidiau ar y mater hwn lle y

tie him down. If he fails to act, we will force his hand, but, given the consensus over this debate, I live in hope if not in expectation. I commend the motion to the Assembly.

byddwn yn ceisio'i orfodi. Os na weithreda, fe'i gorfodwn i wneud hynny, ond, o ystyried y consensws yn y ddadl hon, yr wyf yn byw mewn gobaith er nad wyf yn ddisgwylgar. Cymeradwyaf y cynnig i'r Cynulliad.

*Gwelliant 1: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

Motion NDM3222 as amended: to propose that

Cynnig NDM3222 fel y'i diwygiwyd: cynnig bod

the National Assembly

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. believes that no reconfiguration of hospital services should take place without adequately planned community provision; and

1. yn credu na ddylai gwasanaethau ysbytai gael eu hailgyflunio heb ddarpariaeth gymunedol wedi'i chynllunio'n ddigonol; ac

2. believes that before any reconfiguration occurs there must be genuine public consultation, with the views of local communities not only listened to but taken on board.

2. yn credu bod yn rhaid cael gwir ymgynghoriad cyhoeddus cyn i unrhyw ailgyflunio ddigwydd, gyda safbwyntiau cymunedau lleol nid yn unig yn cael gwrandawriad ond yn cael eu hystyried.

Cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amended motion: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val

Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.
 Amended motion carried.*

Diogelwch ar y Ffyrdd Road Safety

Motion (NDM3223): to propose that

Cynnig (NDM3223): cynnig bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. recognises the valuable contribution of the Welsh Assembly Government to improving road safety for children; and

1. yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru at wella diogelwch ar y ffyrdd i blant; a

2. notes that the target of reducing the number of children killed or seriously injured by 50 per cent by 2010 has already been met.

2. yn nodi bod y targed o gael gostyngiad o 50 y cant erbyn 2010 yn nifer y plant a leddir neu a niweidir yn ddifrifol eisoes wedi'i gyflawni.

Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. In point 1 delete 'recognises the valuable contribution of' and replace with

Gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 1, dileu 'yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr' a rhoi yn ei le

expects a valuable contribution from

yn disgwyl cyfraniad gwerthfawr gan

Amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. In point 1 after 'children' insert:

Gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 1, cynnwys ar ôl 'i blant':

but regrets the fact that 180 people were killed on Welsh roads in 2005 and calls for more work to be done to reduce the number of casualties

ond yn gresynu at y ffaith bod 180 o bobl wedi'u lladd ar ffyrdd Cymru yn 2005 ac yn galw am wneud mwy o waith i leihau nifer y damweiniau

Amendment 3 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Welsh Assembly Government, once empowered to do so, to bring forward legislation to:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, unwaith y caiff y pwerau i wneud hynny, i gyflwyno deddfwriaeth i:

- a) *ensure that each child using LEA-funded transport has a seatbelt;* a) *sicrhau bod gan bob plentyn sy'n defnyddio cludiant a gyllidir gan AALLau wregys diogelwch;*
- b) *carry out a Criminal Records Bureau check on all drivers of school transport;* b) *sicrhau bod y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynnal ymchwiliad i gefndir pob un a benodir i gludo plant i'r ysgol;*
- c) *carry out and publish a risk assessment of all vehicles prior to the award of any contract for school transport.* c) *sicrhau bod asesiad risg o bob cerbyd yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi cyn dyfarnu unrhyw gontract ar gyfer cludiant i'r ysgol.*

Amendment 4 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 4 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes with concern that the rate of children killed on the roads in Wales is still higher than that of the England, Scotland and UK averages.

yn nodi gyda phryder fod cyfradd y plant a leddir ar ffyrdd Cymru yn dal yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr, yr Alban a'r DU.

Amendment 5 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 5 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes with concern that despite 50 per cent less children dying on the roads in Wales this year, this has not been a steady decrease and that numbers fluctuate every year.

yn nodi gyda phryder, er bod 50 y cant yn llai o blant wedi marw ar ffyrdd Cymru eleni, nad yw hwn wedi bod yn ostyngiad cyson a bod y niferoedd yn amrywio bob blwyddyn.

Amendment 6 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 6 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

recognises the important role speed cameras have to play in improving road safety, while at the same time recognising concerns that some cameras are merely placed for revenue generation, rather than improving road safety, and calls upon the Welsh Assembly Government to conduct an audit of camera placement to ensure maximum road safety improvements.

yn cydnabod rôl bwysig camerâu cyflymder wrth wella diogelwch ar y ffyrdd, gan gydnabod ar yr un pryd bryderon bod rhai camerâu'n cael eu gosod er mwyn cynhyrchu refeniw yn unig, yn hytrach nag er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal archwiliad o leoliadau camerâu i sicrhau'r gwelliannau gorau posibl i ddiogelwch ar y ffyrdd.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies, amendments 4 and 5 in the name of Kirsty Williams and amendment 6 in the name of Lisa Francis.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 4 a 5 yn enw Kirsty Williams a gwelliant 6 yn enw Lisa Francis.

Before I call the Deputy Minister to propose the motion, I should say that I have only three Members from the opposition parties' backbenches wishing to speak, but I have

Cyn galw ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y cynnig, dylwn ddweud mai dim ond tri Aelod sydd gennyf o feinciau cefn y gwrthbleidiau sy'n dymuno siarad, ond bod gennyf gymaint

double that number from the Government. The Government backbenchers will not all get in unless they make succinct speeches.

The Deputy Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Tamsin Dunwoody): I propose that

the National Assembly for Wales:

1. recognises the valuable contribution of the Welsh Assembly Government to improving road safety for children; and

2. notes that the target of reducing the number of children killed or seriously injured by 50 per cent by 2010 has already been met. (NDM3223)

4.40 p.m.

Children are among our most vulnerable road users. We have made great efforts over several years to reduce the number of children killed or seriously injured in road collisions, and we have achieved a big reduction. Many of you will be familiar with the casualty reduction targets that we have set ourselves, but they bear repeating. By 2010, we want to reduce the total number of deaths and seriously injured on Welsh roads by 40 per cent. We are on course to meet that target. The figures for 2005 already show that we have already achieved a 34 per cent reduction, based on the average for 1994-98.

Eleanor Burnham: Thank you, Tamsin. It is very good of you to take an intervention. It was on that very point that I was hoping to ask whether you thought that the Welsh Assembly Government could do something, because, apparently, nearly 430 below the age of 15 have been injured in incidents each year, including in north Wales. I wondered what exactly the Welsh Assembly Government is doing to try to reduce this.

Tamsin Dunwoody: If you would let me speak, you might find out.

However, even more challenging than that,

ddwywaith â hynny o'r Llywodraeth. Ni fydd pawb o feinciau cefn y Llywodraeth yn cael cyfle oni wnânt areithiau cryno.

Y Dirprwy Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Tamsin Dunwoody): Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru at wella diogelwch ar y ffyrdd i blant; a

2. yn nodi bod y targed o gael gostyngiad o 50 y cant erbyn 2010 yn nifer y plant a leddir neu a niweidir yn ddifrifol eisoes wedi'i gyflawni. (NDM3223)

Mae plant ymysg ein defnyddwyr ffyrdd mwyaf agored i niwed. Yr ydym wedi gwneud ymdrechion mawr ers blynyddoedd lawer i leihau nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffyrdd, ac yr ydym wedi sicrhau gostyngiad mawr. Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'n targedau ar gyfer lleihau'r niferoedd a gaiff eu lladd neu eu hanafu, ond mae'n werth eu hailadrodd. Erbyn 2010, mae arnom eisiau gostwng cyfanswm nifer y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru 40 y cant. Yr ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwnnw. Dengys ffigurau 2005 ein bod eisoes wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 34 y cant, ar sail y cyfartaledd ar gyfer 1994-98.

Eleanor Burnham: Diolch, Tamsin. Chwarae teg ichi am dderbyn ymyriad. Ar yr union bwynt hwnnw yr oeddwn yn gobeithio gofyn a oeddech yn meddwl y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud rhywbeth, oherwydd ymddengys fod bron 430 dan 15 oed wedi cael eu hanafu mewn digwyddiadau bob blwyddyn, gan gynnwys yn y gogledd. Meddwl yr oeddwn tybed beth yn union y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i geisio lleihau hyn.

Tamsin Dunwoody: Pe baech yn gadael imi siarad, efallai y caech wybod.

Fodd bynnag, ac yr oedd hyn yn fwy o her na

we were determined to halve the number of children killed or seriously injured on our roads. The latest casualty figures do show that reduction that I mentioned before you rose to speak. In reality, this means that 154 fewer children have been killed or seriously injured in road collisions. We have already reached our target for 2010, but we can never be complacent, and there is still much that can be done to achieve further reductions.

Many organisations are involved in the work to reduce the number of child road casualties, which include the Assembly, local authorities, the police, the Royal Society for the Prevention of Accidents, fire and rescue services, schools and teachers, voluntary road safety organisations, parents and, more importantly, children themselves. We are very lucky that here in Wales we have well established successful partnerships, that work together to ensure that we achieve as much as we can. We certainly acknowledge that local authorities have a leading role in casualty reduction. This includes the design and maintenance of local roads, local publicity campaigns, delivering road safety education, and working with local schools.

David Lloyd: There are calls in Swansea to close the Kingsway to traffic on Friday and Saturday nights, following a boy-racer-initiated death last year, and a petition has gone to the Swansea City and County Council last week. Is that the sort of initiative that you would think of supporting, following the words you have just said?

Tamsin Dunwoody: I was actually discussing local authority involvement, but I am fully aware of the police call to close Kingsway following that tragic accident. I have to say that each individual example needs to be looked at on its own merits, and I would not give you an assurance now that Kingsway should be shut. There are other measures that we would look at closely with police, before we would make such a recommendation. However, I am fully aware

hynny hyd yn oed, yr oeddem yn benderfynol o haneru nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos y gostyngiad hwnnw a grybwyllais cyn ichi godi i siarad. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod 154 yn llai o blant wedi'u lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd. Yr ydym eisoes wedi cyrraedd ein targed ar gyfer 2010, ond ni allwn fyth laesu dwylo, ac mae llawer y gellir ei wneud o hyd i sicrhau gostyngiadau pellach.

Mae llawer o sefydliadau'n ymwneud â'r gwaith o leihau nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd, gan gynnwys y Cynulliad, yr awdurdodau lleol, yr heddlu, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, y gwasanaethau tân ac achub, ysgolion ac athrawon, cyrff gwirfoddol yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd, rhieni, ac, yn bwysicach, plant eu hunain. Yr ydym yn ffodus iawn bod gennym yma yng Nghymru bartneriaethau llwyddiannus sydd wedi hen ennill eu plwyf, sy'n cydweithio i sicrhau ein bod yn cyflawni cymaint ag y gallwn. Yn sicr, cydnabyddwn fod gan yr awdurdodau lleol rôl flaenllaw o ran gostwng y niferoedd. Mae hyn yn cynnwys cynllunio a chynnal ffyrdd lleol, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd lleol, darparu addysg diogelwch ar y ffyrdd, a gweithio gydag ysgolion lleol.

David Lloyd: Mae galwadau yn Abertawe am gau Ffordd y Brenin i draffig ar nos Wener a nos Sadwrn, yn sgîl marwolaeth a achoswyd gan fachgen yn goryrru y llynedd, ac mae deiseb wedi mynd i Gyngor Dinas a Sir Abertawe yr wythnos diwethaf. Ai'r math hwnnw o fenter y byddech yn ystyried ei gefnogi, yn sgîl yr hyn yr ydych newydd ei ddweud?

Tamsin Dunwoody: Trafod cyfranogiad awdurdodau lleol yr oeddwn a dweud y gwir, ond yr wyf yn gwbl ymwybodol o alwad yr heddlu am gau Ffordd y Brenin wedi'r ddamwain drasig honno. Rhaid imi ddweud bod angen edrych ar bob enghraifft unigol fesul un, ac ni fyddwn yn rhoi sicrwydd ichi yn awr y dylid cau Ffordd y Brenin. Mae mesurau eraill y byddem yn edrych arnynt yn ofalus gyda'r heddlu cyn gwneud argymhelliad o'r fath. Fodd bynnag, yr wyf

of its request to do so.

As I was saying, local authorities work closely with us in delivering our road safety education, and work with local schools and other local organisations. We realise the importance of local authorities in trying to ensure that improvements to road safety in local areas are funded properly. That is why we have been allocating direct grants to local authorities since 2000. Approximately £42 million has been distributed to date. Many schemes that improve road safety through a combination of engineering, education, training and publicity have been implemented directly with this funding. An example is the children's traffic club, which helps parents and carers to teach pre-school children—between the ages of three and four and a half—how to be safe on the roads when they are out and about. That is now being offered free to nearly all three-year-olds in Wales.

Brynle Williams: I am sorry to interrupt. Is there a way around this? I have seen zoned speeding limits in several other countries, particularly outside schools, bringing speed limits in a certain area right down to, say, 15mph, which should be policed regularly and severely. As you have pointed out along with everyone else, the most important things in our lives are our children, and these wholesale accidents have to be stopped.

Tamsin Dunwoody: Thank you, Brynle. One of our manifesto commitments is to extend the use of 20mph zones around schools across Wales. Local authorities have put many in place, which have contributed directly to casualty reductions, but there is scope to do more. I would like local authorities to continue to consider the installation of 20mph speed limit zones around where children are—not just around schools, but around play areas, as well as the routes to and from those play areas.

yn gwbl ymwybodol o'u cais am wneud hynny.

Fel yr oeddwn yn dweud, mae'r awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos gyda ni i gyflwyno'n haddysg ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, a gweithio gydag ysgolion lleol a chyrff lleol eraill. Sylweddolwn bwysigrwydd yr awdurdodau lleol wrth geisio sicrhau y rhoddir cyllid priodol ar gyfer gwelliannau i ddiogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd lleol. Dyna pam yr ydym wedi bod yn dyrannu grantiau uniongyrchol i awdurdodau lleol ers 2000. Mae tua £42 miliwn wedi'i ddosbarthu hyd yma. Mae llawer o gynlluniau sydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy gyfuniad o beirianeg, addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd wedi'u rhoi ar waith yn uniongyrchol gyda'r arian hwn. Un enghraifft yw'r clwb traffig i blant, sy'n helpu rhieni a gofalwyr i ddysgu plant cyn oed ysgol—rhwng tair a phedair blwydd a hanner oed—sut i fod yn ddiogel ar y ffyrdd pan fyddant yn mynd o gwmpas. Mae hynny bellach yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim i bron pob plentyn teirblwydd oed yng Nghymru.

Brynle Williams: Mae'n ddrwg gennyf dorri ar eich traws. A oes modd datrys hyn? Yr wyf wedi gweld parthau cyfyngu cyflymder mewn sawl gwlad arall, yn enwedig y tu allan i ysgolion, yn dod â'r cyflymder uchaf mewn ardal benodol i lawr hyd at 15 mya, dyweder, a dylid plismona hynny'n rheolaidd ac yn llym. Fel yr ydych wedi nodi, ynghyd â phawb arall, ein plant yw'r pethau pwysicaf yn ein bywydau, a rhaid rhoi terfyn ar y damweiniau hyn sydd ar raddfa eang.

Tamsin Dunwoody: Diolch, Brynle. Un o'n haddewidion yn ein maniffesto yw estyn y defnydd o barthau 20 mya y tu allan i ysgolion ledled y wlad. Mae awdurdodau lleol wedi sefydlu llawer o'r rhain, sydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ostwng y niferoedd sy'n cael eu lladd a'u hanafu, ond nid da lle gellir gwell. Hoffwn i'r awdurdodau lleol barhau i ystyried sefydlu parthau cyfyngu cyflymder i 20 mya mewn ardaloedd lle y ceir plant—nid dim ond o gwmpas ysgolion, ond o gwmpas mannau chwarae, yn ogystal â'r ffyrdd i'r mannau chwarae hynny ac oddi yno.

Junior road safety officers are another example, and they have been appointed in many schools across the country. That is a scheme whereby children get directly involved in road safety issues. It allows them to highlight issues that affect them locally, and raise awareness of road safety in their school and the wider community. Role playing and theatrical presentations to students are also now commonplace across Wales. Again, these are very effective in conveying road safety messages when part of a planned programme.

Significant road safety improvements can be gained through the design and engineering of road layouts. Some of the measures funded through our local road safety grant and Safe Routes to School are specifically targeted at children, but may benefit all road users; the 20 mph zone is a specific example of that.

The growing use of the car for the school journey is well documented, and we are working hard to reduce dependence on the car for school journeys. This includes encouraging more children to walk or cycle to school. The focus of this work is mainly on reducing congestion and pollution, but also on encouraging children to develop a healthier lifestyle, in line with our Assembly policies to improve children's health, reduce obesity, and encourage more physical activity. Road safety is also a key element of that. Developing safe routes to school is central to encouraging more walking and cycling.

Our Safe Routes to School initiative goes from strength to strength. Since 2000, we have allocated over £22 million to schemes across the country. Every local authority has received funding, and over 350 schools now have safe routes in place. Our initiative continues to attract universal praise, and Sustrans frequently quotes Wales as an exemplar.

A key element of our work to promote road safety among primary school children is the Kerbcraft child pedestrian training scheme.

Mae swyddogion iau diogelwch ar y ffyrdd yn enghraifft arall, ac fe'u penodwyd mewn llawer o ysgolion ledled y wlad. Mae hwnnw'n gynllun lle y bydd plant yn ymwneud yn uniongyrchol â materion diogelwch ar y ffyrdd. Mae'n caniatáu iddynt dynnu sylw at faterion sydd yn effeithio arnynt yn lleol, a hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd yn eu hysgol ac yn y gymuned ehangach. Yn ogystal â hynny, mae chwarae rolau a chyflwyniadau theatr i fyfyrwyr yn gyffredin ledled Cymru bellach. Mae'r rhain hefyd yn effeithiol iawn o ran cyfleu negeseuon am ddiogelwch ar y ffyrdd fel rhan o raglen sydd wedi'i chynllunio.

Gellir gwella diogelwch ar y ffyrdd yn sylweddol drwy gynllunio ac adeiladu trefn ffyrdd. Mae rhai o'r mesurau a ariannwyd drwy ein grant diogelwch ffyrdd lleol a Llwybrau Diogel i'r Ysgol wedi'u targedu'n benodol ar blant, ond gallent fod o fudd i bawb sydd yn defnyddio'r ffyrdd: mae'r parth 20 milltir yr awr yn enghraifft benodol o hynny.

Mae cryn dystiolaeth i ddangos bod ceir yn cael eu defnyddio fwyfwy ar gyfer y daith i'r ysgol, ac yr ydym yn ymdrechu i leihau'r ddibyniaeth ar geir ar gyfer teithiau i'r ysgol. Mae hynny'n cynnwys annog mwy o blant i gerdded neu seiclo i'r ysgol. Prif amcan y gwaith hwn yw lleihau tagfeydd a llygredd, yn ogystal â chymell plant i ddatblygu ffordd iachach o fyw, yn unol â pholisïau ein Cynulliad i wella iechyd plant, lleihau gordewdra, a hybu gweithgarwch corfforol. Mae diogelwch ar y ffyrdd yn elfen allweddol yn hynny hefyd. Mae'n hollbwysig datblygu llwybrau diogel i ysgolion er mwyn hybu cerdded a seiclo.

Mae ein cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn mynd o nerth i nerth. Ers 2000, yr ydym wedi dyrannu mwy na £22 filiwn i gynlluniau ledled y wlad. Mae pob awdurdod lleol wedi cael cyllid, ac mae mwy na 350 o ysgolion wedi sefydlu llwybrau diogel erbyn hyn. Mae pawb yn dal i ganmol y fenter hon o'n heiddo, a bydd Sustrans yn cyfeirio'n aml at Gymru fel esiampl.

Un elfen allweddol yn ein hymdrech i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd ymysg plant ysgol gynradd yw cynllun hyfforddi

Trained local volunteers, mostly parents, train small groups of five to seven-year-olds at the roadside. Kerbcraft offers three basic skills—finding a safe place to cross, crossing between parked cars, and crossing near junctions. Training is progressive, with each skill building on the foundation laid by the earlier skills. This is a far more effective form of training than that which takes place off-road or in the classroom.

Each local authority receives a grant from us to fund a Kerbcraft co-ordinator. Funding has been provided since 2002 to enable a national programme of Kerbcraft schemes to be implemented. The co-ordinator recruits schools to take part in the training, and then recruits and trains volunteers to teach those skills to the children. A high percentage has been established in areas of social deprivation, as child pedestrian casualties have been shown to be higher in such areas. Evidence of children's progress in road safety awareness, and their general confidence, has been reported. The evaluation that we have undertaken has shown positive results, with trained children performing significantly better than untrained children.

In the 2005-06 school year, Kerbcraft training has taken place in 225 schools, 8,102 children have received training, and 891 volunteers have been involved in training those children. These schemes continue to operate well throughout the country, with motivated co-ordinators, and large numbers of volunteers are involved. A large number of children have now developed the road safety skills that they require.

Jocelyn Davies: You have mentioned some excellent schemes. However, you will probably be aware of the tragic death last year of Jasmine Allen at Hafodrynys, Crumlin. She was involved in a collision—the school bus in which she was travelling was being driven illegally by an unlicensed

Kerbcraft ar gyfer cerddwyr o blant. Mae gwirfoddolwyr lleol hyfforddedig, sydd yn rhieni gan mwyaf, yn hyfforddi grwpiau bach o rai rhwng pump a saith mlwydd oed ar fin y ffordd. Mae Kerbcraft yn cynnig tri sgil sylfaenol—darganfod man diogel i groesi, croesi rhwng ceir sydd wedi'u parcio, a chroesi ger cyffordd. Mae'r hyfforddiant yn digwydd fesul cam, a datblygir pob sgil ar sail y sgiliau a ddysgwyd yn gynharach. Mae hyfforddiant o'r math hwn yn llawer mwy effeithiol na'r hyn sydd yn digwydd oddi ar y ffyrdd neu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae pob awdurdod lleol yn cael grant gennym i dalu am gydgyssylltydd Kerbcraft. Darparwyd cyllid ers 2002 fel y gellir rhoi rhaglen genedlaethol o gynlluniau Kerbcraft ar waith. Mae'r cydgysylltydd yn recriwtio ysgolion i gymryd rhan yn yr hyfforddiant, ac wedyn yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr i ddysgu'r sgiliau hynny i'r plant. Mae canran uchel ohonynt wedi'u sefydlu mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd cymdeithasol, oherwydd dangoswyd bod nifer y cerddwyr o blant sydd yn cael eu hanafu a'u lladd yn uwch mewn ardaloedd o'r fath. Cafwyd gwybod am dystiolaeth sydd yn dangos bod plant yn dod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch ar y ffyrdd, ac yn fwy hyderus yn gyffredinol. Mae'r gwerthusiad a wnaethom wedi dangos canlyniadau cadarnhaol, a bod plant sydd wedi'u hyfforddi'n perfformio'n well o lawer na rhai sydd heb eu hyfforddi.

Ym mlwyddyn ysgol 2005-06, cafwyd hyfforddiant Kerbcraft mewn 225 o ysgolion, mae 8,102 o blant wedi cael eu hyfforddi, a bu 891 o wirfoddolwyr yn ymwneud â hyfforddi'r plant hynny. Mae'r cynlluniau hyn yn dal i weithio'n dda ledled y wlad, gyda chydgyssylltwyr brwdfrydig, ac mae nifer fawr o wirfoddolwyr yn cymryd rhan. Mae nifer fawr o blant bellach wedi dysgu'r sgiliau ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd y mae arnynt eu hangen.

Jocelyn Davies: Yr ydych wedi crybwyll rhai cynlluniau rhagorol. Fodd bynnag, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol o farwolaeth drist Jasmine Allen yn Hafodrynys, Crymlyn y llynedd. Bu mewn gwrthdrawiad—yr oedd y bws ysgol yr oedd yn teithio ynddo'n cael ei yrru'n

and uninsured driver. He later received a sentence of a six-month ban, and a puny £260 fine. Do you agree that those categories of offences need reviewing? I understand that criminal justice is not a devolved matter. However, schoolchildren are not in a position to challenge the adults who are driving them on school transport, and they are not in a position to satisfy themselves that that person is driving legally. I am sure that you agree that offenders—

The Deputy Presiding Officer: Order. You are not making a speech, Jocelyn; it is an intervention.

Jocelyn Davies: Offenders should face much stiffer sentences.

Tamsin Dunwoody: As you said, I cannot comment on sentencing, as that is not a devolved issue. However, we make strenuous efforts to ensure that all school drivers are checked by the Criminal Records Bureau. Huge concerns were raised by that tragic incident, and thank you for raising that point.

According to a headteacher in Wrexham,

‘Kerbcraft is a most wonderful and fantastic addition to the school curriculum, it has definitely cut the number of accidents in our area and I cannot speak highly enough of its impact on the children of our school’.

4.50 p.m.

It is vital that we keep up this steady improvement and maintain the downward trend in child casualties. We must all work together closely over the next few years if we are to make the most of our combined resources and our combined know-how. I look forward to listening to Members’ contributions.

Janet Davies: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: in point 1 delete ‘recognises the valuable contribution of’ and replace with

expects a valuable contribution from

anghyfreithlon gan rywun a oedd heb drwydded a heb yswiriant. Yn ddiweddarach cafodd ddedfryd o waharddiad o chwe mis, a dirwy bitw o £260. A ydych yn cytuno bod angen adolygu’r mathau hynny o droseddau? Yr wyf yn deall nad yw cyfiawnder troseddol yn fater sydd wedi’i ddatganoli. Er hynny, nid yw plant ysgol yn gallu herio’r oedolion sydd yn eu cludo i’r ysgol, ac nid ydynt yn gallu sicrhau bod yr unigolyn hwnnw’n gyrru’n gyfreithlon. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod troseddwyr—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid rhoi araith yr ydych, Jocelyn; ymyriad yw hyn.

Jocelyn Davies: Dylai troseddwyr wynebu dedfrydau llymach o lawer.

Tamsin Dunwoody: Fel y dywedasoeh, ni allaf gyflwyno sylwadau ynghylch dedfrydu, gan nad yw’n fater sydd wedi’i ddatganoli. Fodd bynnag, yr ydym yn ymdrechu’n daer i sicrhau bod y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn ymchwilio i gefndir yr holl yrwyr ysgol. Cododd pryderon mawr yn sgîl y digwyddiad trist hwnnw, a diolch i chi am godi’r pwynt hwnnw.

Yn ôl pennaeth ysgol yn Wrecsam,

Mae Kerbcraft yn ychwanegiad gwych a rhagorol at y cwricwlwm ysgol, yn bendant mae wedi lleihau nifer y damweiniau yn ein hardal ac ni allwn ganmol digon ar yr effaith a gafodd ar y plant yn ein hysgol.

Mae’n hollbwysig inni barhau â’r gwelliant cyson hwn a’r gostyngiad yn nifer y plant sydd yn cael eu lladd a’u hanafu mewn damweiniau. Rhaid inni oll gydweithio’n agos dros y blynyddoedd nesaf os ydym i fanteisio i’r eithaf ar yr hadnoddau a’r wybodaeth sydd gennym ar y cyd. Edrychaf ymlaen at wrando ar gyfraniadau’r Aelodau.

Janet Davies: Cynigiad y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: ym mhwynt 1, dileu ‘yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr’ a rhoi yn ei le

yn disgwyl cyfraniad gwerthfawr gan

I propose amendment 2. In point 1 after 'children' insert:

but regrets the fact that 180 people were killed on Welsh roads in 2005 and calls for more work to be done to reduce the number of casualties

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government, once empowered to do so, to bring forward legislation to:

a) ensure that each child using LEA-funded transport has a seatbelt;

b) carry out a Criminal Records Bureau check on all drivers of school transport;

c) carry out and publish a risk assessment of all vehicles prior to the award of any contract for school transport.

I am glad that the Deputy Minister has acknowledged that, while it is good to achieve targets, even one death is a death too many and that we must try to reduce these numbers year on year. To do that, I suggest that we need new targets for 2010, with a lower number of casualties than was originally set. I am also concerned because I recently saw a story that the Statistics Commission is concerned about the statistics used. It says that the statistics are based solely on police data, but that if hospital data were used, casualties could have risen. We need to look at that.

Looking at those statistics, Wales is not as good as England and Scotland overall; we need to do more work. I acknowledge that Government studies are under way and that measures will be taken when the results of those studies are known, but driving down the number of these casualties needs strong determination and the financial backing to go

Cynigiau welliant 2. Ym mhwynt 1 cynnwys ar ôl 'i blant':

ond yn gresynu at y ffaith bod 180 o bobl wedi'u lladd ar ffyrdd Cymru yn 2005 ac yn galw am wneud mwy o waith i leihau nifer y damweiniau

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, unwaith y caiff y pwerau i wneud hynny, i gyflwyno deddfwriaeth i:

a) sicrhau bod gan bob plentyn sy'n defnyddio cludiant a gyllidir gan AALlau wregys diogelwch;

b) sicrhau bod y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynnal ymchwiliad i gefndir pob un a benodir i gludo plant i'r ysgol;

c) sicrhau bod asesiad risg o bob cerbyd yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi cyn dyfarnu unrhyw gontract ar gyfer cludiant i'r ysgol.

Yr wyf yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi cydnabod, er mai peth da yw cyrraedd targedau, fod hyd yn oed un farwolaeth yn ormod a bod rhaid inni geisio lleihau'r niferoedd hyn o flwyddyn i flwyddyn. Er mwyn gwneud hynny, awgrymaf fod angen inni gael targedau newydd ar gyfer 2010, gyda nifer is nag a oedd wedi'i bennu'n wreiddiol ar gyfer rhai a gaiff eu lladd a'u hanafu mewn damweiniau. Yr wyf hefyd yn bryderus gan imi ddarllen yn ddiweddar fod y Comisiwn Ystadegau'n bryderus ynghylch yr ystadegau a ddefnyddir. Dywed fod yr ystadegau wedi'u seilio ar ddata'r heddlu'n unig, ond y gallai nifer y rhai sydd wedi'u lladd a'u hanafu mewn damweiniau fod yn uwch os defnyddir data ysbytai. Rhaid inni ymchwilio i hynny.

O edrych ar yr ystadegau hynny, nid yw Cymru cystal â Lloegr a'r Alban yn gyffredinol; rhaid inni wneud mwy o waith. Yr wyf yn derbyn bod y Llywodraeth yn cynnal astudiaethau ac y cymerir camau pan fydd canlyniadau'r astudiaethau hynny'n hysbys, ond mae angen penderfyniad cadarn i ostwng y nifer sydd yn cael eu lladd a'u

with it.

There is a disparity in the figures from our different police forces. The north Wales force has reduced casualties by 35 per cent and Gwent by 24 per cent, but south Wales by only 2.5 per cent, and in Dyfed-Powys casualties have risen by 0.6 per cent. It is a small increase, but it is still a rise. Ceredigion is particularly bad, with an increase of 13 per cent. This is comparing the 2005 figures with those for 1994 to 1998, which were taken as the baseline. The figures in Ceredigion are worrying when you look at the fact that cars are now—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you give way to Mark?

Janet Davies: I am sorry, I did not see him. I will give way.

Mark Isherwood: If I am not incorrect, I just heard you say that north Wales had reduced casualties by 35 per cent. Is that correct?

Janet Davies: Yes.

Mark Isherwood: My understanding is that casualty statistics in north Wales have been falling since the 1990s, but have now gone up. I have the latest figures from North Wales Police today, showing that there have been 37 casualties in the year to date, which equates to a return to the figures of 1999, and is an increase on last year's figure of 42, which was for 12 months. Therefore, it is not a decrease of 35 per cent.

Janet Davies: According to my statistics, that is not the situation; I have a reduction in 2005 of all casualties down to 2,684, compared to 3,203 in the previous year and a higher number in the 1990s. However, I was just talking about Ceredigion, and when you consider that cars and roads are better engineered now, what is happening in

hanafu mewn damweiniau ynghyd â chymorth ariannol ar gyfer hynny.

Mae gwahaniaeth rhwng ffigurau ein gwahanol heddluoedd. Mae heddlu'r gogledd wedi lleihau nifer y rhai a gaiff eu lladd a'u hanafu mewn damweiniau 35 y cant a Gwent wedi'i ostwng 24 y cant, ond nid yw heddlu'r de ond wedi'i ostwng 2.5 y cant, ac mae'r nifer wedi codi 0.6 y cant yn Nyfed-Powys. Cynnydd bach yw hwnnw, ond cynnydd er hynny. Mae'n arbennig o wael yng Ngheredigion, lle y cafwyd cynnydd o 13 y cant. Ceir hynny o gymharu ffigurau 2005 â'r rhai ar gyfer y cyfnod rhwng 1994 a 1998, a gymerwyd fel llinell sylfaen. Mae'r ffigurau ar gyfer Ceredigion yn peri gofid o ystyried y ffaith bod ceir bellach—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch ildio i Mark?

Janet Davies: Mae'n ddrwg gennyf, nis gwelais. Ildiaf.

Mark Isherwood: Os nad wyf yn camgymryd, yr wyf newydd eich clywed yn dweud bod nifer y rhai sydd yn cael eu lladd a'u hanafu mewn damweiniau yn y gogledd wedi lleihau 35 y cant. A yw hynny'n gywir?

Janet Davies: Ydyw.

Mark Isherwood: Yn ôl yr hyn yr wyf fi'n ei ddeall, mae'r ystadegau ar gyfer y rhai sydd yn cael eu lladd a'u hanafu mewn damweiniau wedi bod yn gostwng ers yr 1990au, ond maent wedi codi'n awr. Mae'r ffigurau diweddaraf oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru gennyf heddiw, ac maent yn dangos bod 37 wedi'u lladd neu eu hanafu yn ystod y flwyddyn hyd yma, sydd yn cyfateb i'r ffigurau a gafwyd yn 1999, ac mae'n uwch na'r ffigur y llynedd, sef 42, a oedd ar gyfer 12 mis. Felly, ni chafwyd gostyngiad o 35 y cant.

Janet Davies: Yn ôl yr ystadegau sydd gennyf fi, nid felly y mae; gwelaf fod gostyngiad yn 2005 yn nifer y rhai a gafodd eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau i 2,684, o'i gymharu â 3,203 yn y flwyddyn flaenorol a niferoedd uwch yn yr 1990au. Fodd bynnag, sôn yr oeddwn am Geredigion, ac o gofio bod ceir a ffyrdd yn cael eu

Ceredigion has to be looked at very carefully. For three out of the last four years, figures have risen there.

North Wales Police has been pilloried for years by sections of the press and by some motoring organisations for the cameras that it uses to enforce speed limits. In the last two weeks, I have seen a report in a tabloid newspaper stating that deaths from speeding are low, and asking why, therefore, north Wales has all these cameras. It is more convincing to say that the argument is that the 35 per cent reduction in casualties is due to the force's robust attitude towards speeding. We should congratulate it and support it. People who put their speed or a £60 fine before someone else's life need to think seriously about their values.

In the health context, cycling and walking must be encouraged, but they need to be separated from each other. I know people who are elderly and infirm and mothers with young children who will not take their children onto joint routes because of fear for their safety. Safe walking routes to schools are important and I am glad that the Government is doing so many things with schools to increase safety for children, but safe school transport, as Jocelyn mentioned, is essential. How can we ask parents to trust their children to anything that is less than as safe as possible for their journey to school?

Thirty years ago, I looked at the transport that was offered to my child and I would not let her travel on it and, as far as I can see, there has been little improvement since then. That is why amendment 3 calls for legislation, when the Assembly has the powers, to ensure that each child has a seatbelt and that the local education authorities carry out Criminal Records Bureau checks on each driver and carry out and publish a risk assessment before awarding a contract. It would also be helpful to parents if they were given a list of drivers and the drivers were to wear name tags, so that at least the parents who accompany their children to the bus could see whether they are licensed. Next year, the

gwneud yn well bellach o ran peirianeg, mae angen edrych yn fanwl iawn ar yr hyn sydd yn digwydd yng Ngheredigion. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae'r ffigurau wedi codi yn y fan honno.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael ei wneud yn gyff gwawd gan rai yn y wasg a chan rai cyrff moduro am ddefnyddio camerâu i orfodi cyfyngiadau cyflymder. Yn y pythefnos diwethaf, gwelais adroddiad mewn papur newydd tabloid yn datgan bod nifer y marwolaethau oherwydd goryrru'n isel ac yn gofyn, felly, pam y ceir cynifer o gamerâu yn y gogledd. Mwy argyhoeddiadol yw dadlau bod y gostyngiad o 35 y cant yn nifer y rhai a gafodd eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau'n ganlyniad i agwedd gadarn yr heddlu hwnnw at oryrru. Dylem ei longyfarch a'i gefnogi. Os yw rhywun yn rhoi goryrru neu ddirwy o £60 o flaen bywyd rhywun arall, rhaid iddo feddwl o ddifrif ynghylch ei werthoedd.

Yng nghyd-destun iechyd, rhaid hybu seiclo a cherdded, ond mae angen eu gwahanu. Yr wyf yn adnabod rhai oedrannus ac eiddil a mamau â phlant ifanc nad ânt â'u plant ar lwybrau cyfun am eu bod yn pryderu ynghylch eu diogelwch. Mae llwybrau cerdded diogel i'r ysgol yn bwysig ac yr wyf yn falch bod y Llywodraeth yn gwneud cynifer o bethau gydag ysgolion i wella diogelwch plant, ond mae cludiant diogel i'r ysgol, fel y soniodd Jocelyn, yn hanfodol. Sut y gallwn ofyn i rieni adael i'w plant ddefnyddio rhywbeth nad yw'n gwbl ddiogel ar gyfer eu taith i'r ysgol?

Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, edrychais ar y cludiant a gynigiwyd i'm plentyn ac ni adawn iddi deithio arno a, hyd y gallaf weld, ni fu fawr o welliant ers hynny. Dyna pam y mae gwelliant 3 yn galw am ddeddfwriaeth, pan fydd y pwerau angenrheidiol gan y Cynulliad, i sicrhau bod gwregys diogelwch ar gyfer pob plentyn a bod yr awdurdodau addysg lleol yn cynnal ymchwiliad i gefndir pob gyrrwr drwy'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ac yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad risg cyn dyfarnu contract. Byddai o gymorth i rieni hefyd pe caent restr o yrwyr a phe byddai'r gyrrwyr yn gwisgo tagiau â'u henw arnynt, fel y byddai'r rhieni sydd yn hebrwng eu plant at y bws o leiaf yn gallu

Assembly will have that power, if the UK Government is kind enough to agree, and let us hope that it does. I look forward to the Assembly making that legislation.

Kirsty Williams: I propose the following amendments in my name. Amendment 4: add a new point at the end of the motion:

notes with concern that the rate of children killed on the roads in Wales is still higher than that of the England, Scotland and UK averages.

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

notes with concern that despite 50 per cent less children dying on the roads in Wales this year, this has not been a steady decrease and that numbers fluctuate every year.

It is important to begin by saying that all the statistics that have been bandied about today represent a person's child or a child's mum, dad, aunt or uncle, who have lost their lives on our roads. When we put it into the perspective that road accidents are the second biggest killer, after cancer, of people in the five to 14 age group, we realise what a serious situation we are dealing with.

The Government is entitled to pat itself on the back for the fall in the figures that we see before us. However, if we were to delve a bit deeper, we would see that there is an underlying problem that we need to address. Serious injury figures are indeed falling, but if one looks at the number of children who are killed on our roads, there are great fluctuations from year to year. There is not a steady decline and we cannot be overconfident that those figures will continue to decline, because we simply do not know what will happen from year to year. Despite the fact that we have seen the statistics move in the right direction in Wales, we must acknowledge that the number of child deaths remains higher than in England or Scotland and higher than the average for the UK as a whole.

gweld a ydynt wedi'u trwyddedu. Y flwyddyn nesaf, bydd y pŵer hwnnw gan y Cynulliad, os bydd Llywodraeth y DU yn ddigon caredig i gydsynio, a gadewch inni obeithio y bydd. Edrychaf ymlaen at weld y Cynulliad yn gwneud deddfwriaeth o'r fath.

Kirsty Williams: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn fy enw i. Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi gyda phryder fod cyfradd y plant a leddir ar ffyrdd Cymru yn dal yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr, yr Alban a'r DU.

Cynigiau welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi gyda phryder, er bod 50 y cant yn llai o blant wedi marw ar ffyrdd Cymru eleni, nad yw hwn wedi bod yn ostyngiad cyson a bod y niferoedd yn amrywio bob blwyddyn.

Mae'n bwysig dechrau drwy ddweud bod yr holl ystadegau sydd wedi'u taflu yn ôl ac ymlaen heddiw'n cynrychioli plentyn rhywun neu fam neu dad neu fodryb neu ewythr rhyw blentyn, sydd wedi colli ei fywyd ar ein ffyrdd. Pan ystyriwn hyn yng ngoleuni'r ffaith mai damweiniau ar ffyrdd sydd yn lladd y nifer fwyaf o bobl, ac eithrio canser, yn y grŵp oedran pump i 14, sylweddolwn ein bod yn delio â sefyllfa ddifrifol iawn.

Mae gan y Llywodraeth hawl i'w chanmol ei hun am y gostyngiad yn y ffigurau a welwn o'n blaenau. Er hynny, pe byddem yn edrych yn fanylach, gwelem fod problem sylfaenol y mae angen inni roi sylw iddi. Mae'r ffigurau am anafiadau difrifol yn gostwng, mae'n wir, ond os ystyrir nifer y plant a leddir ar ein ffyrdd, gwelir ei fod yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes gostyngiad cyson ac ni allwn fod yn orffyddiog y bydd y ffigurau hynny'n dal i ostwng, am na wyddom beth a ddigwydd o flwyddyn i flwyddyn. Er ein bod wedi gweld bod yr ystadegau'n symud i'r cyfeiriad iawn yng Nghymru, rhaid inni dderbyn bod nifer y marwolaethau ymysg plant yn parhau'n uwch nag yn Lloegr neu'r Alban ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan.

If one looks at the type of children who are being injured or killed, there are big variations between age groups in the drops in the statistics. There has been a significant drop of almost 40 per cent in the number of deaths of and injuries to children up to the age of 11, but the drop in the number of injuries to children aged between 12 and 15 is much less substantial, which identifies that we still have a long way to go with that particular age group. If we look again at the social factors, children who live in deprived communities are five times more likely to be killed in a road accident than children living in more affluent communities. Obviously, we have a long way to go to address the needs of those children.

The Safe Routes to School scheme has made an enormous difference and it is always a great source of pleasure to me to see another 20 mph zone installed in one of the communities in my constituency. However, there is still a long way to go in terms of being rigorous with regard to issues around Safe Routes to School. There is an 18 per cent shortfall in the lollipop patrols in Wales at the moment and many local authorities struggle to fill those vacancies. I am aware of one council in north Wales where councillors and the police have been carrying out the lollipop patrols to ensure the safety of children.

This debate has spent a lot of time considering child pedestrians, which I am sure is the right thing to do, but we cannot ignore other serious road safety statistics, and I turn to the issue of young drivers. There were 452 fatal or serious accidents involving drivers under the age of 26 in 2005, which is 40 per cent of the total number of fatal and serious road accidents in Wales, although that age group makes up only 10 per cent of the driving population of Wales. In Brecknockshire, we have had our own tragedies involving talented young people, including the deputy head girl of Brecon High School and a young medical student who had just left Builth Wells High School—she was in her first few months at the University of Manchester's School of

Os bydd rhywun yn edrych ar y math o blant a gaiff eu hanafu neu eu lladd, gwelir bod gwahaniaethau mawr rhwng y grwpiau oedran o ran y gostyngiad yn yr ystadegau. Bu gostyngiad sylweddol o bron 40 y cant yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau ymysg plant hyd at 11 oed, ond mae'r gostyngiad yn nifer yr anafiadau ymysg plant sydd rhwng 12 a 15 oed yn llai o lawer, ac mae hynny'n dangos bod gennym lawer i'w wneud eto mewn cysylltiad â'r grŵp oedran hwnnw. Os edrychwn eto ar y ffactorau cymdeithasol, mae plant sydd yn byw mewn cymunedau difreintiedig bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd mewn damwain ar y ffordd na phlant sydd yn byw mewn cymunedau mwy cefnog. Mae'n amlwg bod gennym lawer i'w wneud eto i roi sylw i anghenion y plant hynny.

Mae'r cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol a byddaf bob amser yn falch o weld parth 20 mya arall yn cael ei osod yn un o'r cymunedau yn fy etholaeth. Er hynny, mae llawer i'w wneud eto o ran trafod y materion sydd yn ymwneud â Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn drwyadl. Ceir diffyg o 18 y cant yn nifer yr hebryngwyr croesfannau ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd llenwi'r swyddi hynny. Gwn am un cyngor yn y gogledd lle y bu cynghorwyr a'r heddlu'n hebrwng ar groesfannau ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant.

Treuliwyd llawer o amser yn y ddadl hon yn ystyried cerddwyr o blant, ac yr wyf yn siŵr bod hynny'n briodol, ond ni allwn anwybyddu ystadegau difrifol eraill sydd yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd, a throf at fater gyrwyr ifanc. Cafwyd 452 o ddamweiniau angheuol neu ddifrifol a oedd yn cynnwys gyrwyr dan 26 oed yn 2005, sef 40 y cant o'r holl ddamweiniau angheuol neu ddifrifol ar ffyrdd yng Nghymru, er nad yw'r grŵp oedran hwnnw ond 10 y cant o'r holl yrwyr yng Nghymru. Yn sir Frycheiniog, cawsom ein trychinebau ein hunain mewn cysylltiad â phobl ifanc dalentog, gan gynnwys dirprwy brif eneth Ysgol Uwchradd Aberhonddu a myfyrwraig feddygol ifanc a oedd newydd adael Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt—yr oedd newydd

Medicine and was killed on her way home for the weekend to visit her family. These are tragic circumstances, not just for the individuals and families involved, but for the entire community. We have to look to working with the Westminster Government to develop schemes that look at graduated licences or putting limits on the number of passengers that young drivers can carry. I am not sure that we have all the right answers, but we have to take this agenda seriously.

5.00 p.m.

The Government also has to address how it deals with local communities' concerns. I have been to too many public meetings at which members of local communities, afraid for their own lives, have asked for a reduced speed limit, the installation of speed cameras or increased police speed checks, only to be told 'No', because not enough people have been killed or seriously hurt to merit that kind of action. We have to develop a system in which Government can be responsive to the needs of local communities. They do not ask for a 40 mph speed limit in Howey just for the sake of it, because they fancy the idea of living in a 40 mph zone; they do so because they seriously believe that it will make a difference to their lives.

Finally, the Government has to do something to tackle the weekend nuisance of motorcyclists, who drive completely irresponsibly in my constituency and, I dare say, in other parts of Wales. It is not acceptable for born-again bikers to come from different parts of the country and terrorise my constituents with their inconsiderate and dangerous driving.

Alun Cairns: I propose amendment 6 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

recognises the important role speed cameras have to play in improving road safety, while at the same time recognising concerns that some cameras are merely placed for revenue generation, rather than improving road

ddechrau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Manceinion ac fe'i lladdwyd ar ei ffordd adref i weld ei theulu dros y penwythnos. Mae amgylchiadau o'r fath yn drychinebus, nid yn unig i'r unigolion a'r teuluoedd dan sylw, ond i'r gymuned gyfan. Rhaid inni ystyried gweithio gyda Llywodraeth San Steffan i ddatblygu cynlluniau sydd yn ystyried trwyddedau graddedig neu gyfyngu ar nifer y teithwyr y caiff gyrwyr ifanc eu cludo. Nid wyf yn sicr a yw'r holl atebion iawn gennym, ond mae'n rhaid inni gymryd yr agenda hon o ddirif.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth roi sylw hefyd i sut y mae'n ymdrin â phryderon cymunedau lleol. Bûm mewn cyfarfodydd di-rif lle y mae pobl lleol, sy'n ymboeni am eu bywydau, wedi gofyn imi am gyfyngiad cyflymder arafach, gosod camerâu cyflymder neu ragor o wiriadau cyflymder gan yr heddlu, ond 'Na' yw'r ateb, am na chafodd digon o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddirifol i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n rhaid inni ddatblygu system a fydd yn fodd i'r Llywodraeth allu ymateb i anghenion cymunedau lleol. Nid ydynt yn gofyn am gyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr yn Hywi er mwyn gofyn, am fod arnynt awydd byw mewn parth 40 milltir yr awr; gwnânt hynny am eu bod yn credu o ddirif y bydd yn gwneud eu bywydau'n well.

Yn olaf, mae'n rhaid i'r Llywodraeth fwrw ati i wneud rhywbeth ynghylch niwsans beicwyr modur ar benwythnosau, sy'n gyrru mewn modd cwbl anghyfrifol yn fy etholaeth ac sy'n gwneud hynny, mentraf ddweud, mewn rhannau eraill o Gymru. Nid yw'n dderbyniol bod beicwyr ailanedig yn dod o wahanol rannau o'r wlad ac yn dychryn fy etholwyr drwy yrru mewn modd anystyriol a pheryglus.

Alun Cairns: Cynigïaf welliant 6 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod rôl bwysig camerâu cyflymder wrth wella diogelwch ar y ffordd, gan gydnabod ar yr un pryd bryderon bod rhai camerâu'n cael eu gosod er mwyn cynhyrchu refeniw yn unig, yn hytrach nag er mwyn

safety, and calls upon the Welsh Assembly Government to conduct an audit of camera placement to ensure maximum road safety improvements.

There are few points with which I would disagree in Members' contributions. At the outset, it is important to say that the Welsh Assembly Government has done some effective work to reduce road deaths, such as the children's traffic clubs, Safe Routes to Schools, and other initiatives such as improved infrastructure around schools. As Kirsty mentioned, the shortage of lollipop men and ladies is an issue, but having questioned the First Minister on this matter some time ago, I would hope that he and his colleagues are taking positive action to fill that shortfall through further encouragement and resources to local authorities.

It is worrying that performance is varied across Wales. I do not quite follow Janet Davies's logic that the increased number of speed cameras in one area has contributed to the statistics in another; I do not see the direct link, particularly in view of the data that Mark Isherwood questioned. I hope that we can be honest and frank in looking at the data in analysing one and the other.

Speed cameras are exceptionally important in reducing the number of road deaths and in improving safety on our highways. Speed cameras are exceptionally important around schools, as they are in villages and urban areas. However, we also need to maintain the confidence of motorists and the public's good will, and many feel that some speed cameras are inappropriately sited. That is the purpose of the amendment.

I will point out one in particular, which I believe contributes to accidents on the M4, and that is the Gatso camera near junction 41 westbound in Port Talbot. It is located at a narrow part of the motorway, where there are only two lanes and an intermittent hard shoulder; there is also an exit close to the speed camera's location. Human nature means that people naturally brake on first sight of a camera, as a result of which, during

gwella diogelwch ar y ffyrdd, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal archwiliad o leoliadau camerâu i sicrhau'r gwelliannau gorau posibl i ddiogelwch ar y ffyrdd.

Prin yw'r pwyntiau yr anghytunwn â hwy yng nghyfraniadau'r Aelodau. I ddechrau, mae'n bwysig dweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud peth gwaith effeithiol i leihau marwolaethau ar y ffyrdd, megis clybiau traffig y plant, Llwybrau Diogel i'r Ysgol, a mentrau eraill megis seilwaith gwell o amgylch yr ysgolion. Ys dywedodd Kirsty, mae prinder dynion a merched lolipop yn broblem, ond o holi'r Prif Weinidog ynghylch hyn beth amser yn ôl, gobeithiaf ei fod ef a'i gyd-Aelodau'n cymryd camau cadarnhaol i unioni'r diffyg hwnnw rwy roi rhagor o anogaeth ac adnoddau i'r awdurdodau lleol.

Mae'n peri pryder bod y perfformiad yn amrywio ar draws Cymru. Nid wyf yn dilyn rhesymeg Janet Davies yn union pan ddywed fod cynyddu nifer y camerâu cyflymder yn un lle wedi cyfrannu at yr ystadegau mewn lle arall; ni welaf gysylltiad uniongyrchol, yn enwedig o ystyried y data a gwestiynwyd gan Mark Isherwood. Gobeithiaf y gallwn fod yn onest ac yn agored wrth edrych ar y data wrth ddadansoddi'r naill a'r llall.

Mae camerâu cyflymder yn eithriadol bwysig o ran gostwng nifer y marwolaethau ar y ffyrdd a gwella diogelwch ar ein priffyrdd. Mae camerâu cyflymder yn eithriadol bwysig ger ysgolion, ac mewn pentrefi ac ardaloedd trefol fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gadw hyder modurwyr ac ewyllys da'r cyhoedd, ac mae llawer yn teimlo bod rhai camerâu cyflymder wedi eu gosod mewn mannau amhriodol. Dyna yw pwrpas y gwelliant.

Soniaf am un y credaf ei fod yn cyfrannu at achosi damweiniau ar yr M4, sef camera Gatso ger cyffordd 41 i gyfeiriad y gorllewin ym Mhort Talbot. Mae i'w gael ar ran gul o'r draffordd, lle nad oes ond dwy lôn a llain galed ysbeidiol; mae allanfa hefyd yn agos at leoliad y camera cyflymder. Mae'r natur ddynol yn golygu bod pobl yn brecio'n naturiol ddigon pan welant y camera, ac o ganlyniad, yn ystod yr oriau brig, gellir cael

peak periods, there can be four mile hold ups. Several accidents are caused as a result, particularly on bank holidays when traffic should be moving smoothly. Data do not show a record of serious accidents, or of many accidents at all, at that spot, so the siting is dangerous, and it can actually contribute to poorer road safety. The purpose of the amendment is to question the siting of Gatso cameras such as this one, and others across all constituencies. The intention is positive—I actively support having more speed cameras in villages, urban areas and around schools—but I hope that they would be sited appropriately, according to the guidelines laid down by the UK Government; those guidelines could be reviewed to improve safety around those cameras.

I pay tribute to Stuart's Campaign, established following the tragic death of Stuart Cunningham-Jones in the Vale of Glamorgan, which has lobbied exceptionally effectively as a result of Stuart's tragic death. The group continues to meet on a regular basis to raise and to press issues. As a result of the lessons learnt and the lobbying, Vale of Glamorgan Council has made significant improvements and innovations on the road transport used for children to travel to school. It is important to recognise the efforts made by local authorities but not to be complacent, because further improvements can be made. Not all of the requests and demands of Stuart's Campaign have been met in the Vale of Glamorgan, but the council has won awards and it has been recognised across the UK for its excellent work in terms of improving road safety.

Mark Isherwood: Do you share the concern raised last week by the Statistics Commission where it noted that, if figures were measured on hospital records as opposed to police records, targets in the UK and Wales would not have been met on road casualties and road accidents? It is also concerned that UK Government figures published only last week demonstrate that only 5 per cent of people killed and injured in serious road accidents were involved in accidents where people were driving beyond the speed limit, as opposed to using excessive or unsafe speed. We need to look far more closely at the causes so that we target the solutions more

tagfeydd hyd at bedair milltir. O ganlyniad i hyn bydd nifer o ddamweiniau, yn enwedig ar wyl y banc pan ddylai'r traffig fod yn symud yn esmwyth. Nid yw'r data'n dangos bod damweiniau difrifol wedi bod, na dim llawer o ddamweiniau o gwbl, yn y fan honno, felly mae'r lleoliad yn beryglus, a gall wneud diogelwch y ffyrdd yn waeth mewn gwirionedd. Pwrpas y gwelliant yw cwestiynu gosod camerâu Gatso fel hwn, ac eraill ym mhob etholaeth. Mae'r bwriad yn gadarnhaol—yr wyf o blaid rhagor o gamerâu mewn pentrefi, ardaloedd trefol ac o amgylch ysgolion—ond gobeithiaf y cânt eu lleoli'n iawn, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig; gellid adolygu'r canllawiau hynny i wella diogelwch o amgylch y camerâu hynny.

Talaf deyrnged i Ymgyrch Stuart, a sefydlwyd wedi marwolaeth drasig Stuart Cunningham-Jones ym Mro Morgannwg, a fu'n lobïo'n eithriadol effeithiol o ganlyniad i farwolaeth drasig Stuart. Mae'r grŵp yn dal i gwrdd yn rheolaidd i godi materion ac i ddwyn pwysau yn eu cylch. O ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd a'r lobïo, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud gwelliannau mawr ac mae wedi arloesi o ran y cerbydau a ddefnyddir i gludo plant i'r ysgol. Mae'n bwysig cydnabod ymdrechion yr awdurdodau lleol ond rhaid gwarchod rhag bod yn hunanfodlon, oherwydd y mae modd gwneud rhagor o welliannau. Ni chyflawnwyd pob un o geisiadau a galwadau Ymgyrch Stuart ym Mro Morgannwg, ond mae'r cyngor wedi ennill gwobrau ac mae wedi ei gydnabod ar draws y Deyrnas Unedig am ei waith rhagorol o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Mark Isherwood: A ydych chithau'n pryderu fel y Comisiwn Ystadegau, a nododd yr wythnos diwethaf, pe mesurid y ffigurau yn ôl cofnodion yr ysbytai yn hytrach na chofnodion yr heddlu, na fyddid wedi cyrraedd targedau'r Deyrnas Unedig a Chymru ynghylch anafiadau a damweiniau ar y ffyrdd? Mae'n pryderu hefyd fod ffigurau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn dangos nad oedd ond 5 y cant o'r bobl a laddwyd neu a anafwyd mewn damweiniau difrifol ar y ffyrdd mewn damweiniau lle'r oedd pobl yn gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder, yn hytrach nag yn gyrru ar gyflymder

effectively.

Alun Cairns: There is a strong case to be made, but we must also recognise that driving above the speed limit is an offence in itself. We need to recognise that, but we also need to maintain public support. Let us not forget that the police are involved in the siting of cameras, as is the case with mobile cameras, and they need to work with the community on a host of things in terms of maintaining support. Sometimes, the overzealous approach of the police in some areas has contributed to tensions within the community. That is why there is a need to review the siting of some cameras, where there is a clear risk of more accidents, such as the specific case that I highlighted. I have no doubt that there are other similar cases in constituencies up and down Wales.

The camera issue is sensitive, because it would be too easy to play to motorists' concerns without focusing on the issue of speed. A balance can be struck in addressing both issues if we act in an adult and sensible manner.

The Deputy Presiding Officer: Members may wish to note that seven speakers have indicated that they wish to speak if they catch my eye. I intend to call the Minister at 5.30 p.m..

Lorraine Barrett: I welcome the new laws, recently introduced, which make it compulsory for children to travel in an appropriate seat or booster seat with the correct restraints. As I mentioned a few weeks ago, I still see many families travelling in cars where the children are flying around in the back seat, not wearing a seat belt. So, I hope that the police will be more vigilant now that we have these new laws, and that they will remind people of their responsibility towards their own children.

As previously said in the debate, too many children have been killed or seriously injured on roads, particularly in my constituency. As

gormodol neu anniogel. Mae angen inni fwrw golwg manylach dros yr achosion fel y gallwn lunio atebion mwy effeithiol.

Alun Cairns: Gellir cyflwyno dadl gref, ond mae'n rhaid cofio hefyd fod gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder yn drosedd ynddo'i hun. Mae'n rhaid cydnabod hynny, ond mae angen inni gadw cefnogaeth y cyhoedd hefyd. Peidiwn ag anghofio bod gan yr heddlu ran yn y gwaith o leoli camerâu, fel sy'n digwydd o ran y camerâu symudol hefyd, ac mae'n rhaid iddynt hwythau weithio gyda'r gymuned ar lu o bethau er mwyn cynnal eu cefnogaeth. Weithiau mae gorfrwdfrydedd yr heddlu mewn rhai ardaloedd wedi esgor ar dyndra yn y gymuned. Dyna pam y mae angen adolygu lleoliadau rhai camerâu, lle y mae perygl amlwg y bydd rhagor o ddamweiniau, megis yr achos penodol y tynnais sylw ato. Nid oes amheuaeth gennyf nad oes achosion eraill cyffelyb mewn etholaethau ar hyd a lled Cymru.

Mae mater y camerâu'n un sensitif, gan mai hawdd fyddai manteisio ar bryderon modurwyr heb ganolbwyntio ar fater cyflymder. Mae modd sicrhau cydbwysedd wrth ymdrin â'r ddau fater os gweithredwn fel oedolion synhwyrol.

Y Dirprwy Lywydd: Efallai yr hoffai'r Aelodau nodi bod saith o siaradwyr wedi dweud eu bod am siarad os daliant fy sylw. Bwriadaf alw'r Gweinidog am 5.30 p.m..

Lorraine Barrett: Yr wyf yn falch o'r deddfau newydd, a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n ei gwneud yn orfodol i blant deithio mewn sedd briodol neu sedd godi gyda'r atalfeydd cywir. Fel y soniais rai wythnosau'n ôl, gwelaf lawer o deuluoedd yn teithio mewn ceir o hyd a'r plant yn sgialu o gwmpas ar y sedd gefn, heb wisgo gwregysau diogelwch. Felly, gobeithiaf y bydd yr heddlu'n fwy gwyliadwrus bellach yn sgîl y deddfau newydd hyn, ac y byddant yn atgoffa pobl o'r cyfrifoldeb sydd arnynt tuag at eu plant eu hunain.

Ys dywedwyd eisoes yn y ddadl, cafodd gormod o blant eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd, yn enwedig yn fy

the Deputy Minister said, it is imperative that local authorities continue to provide educational schemes such as cycling proficiency courses and Kerbcraft, which teach children how to cross the road safely. However, children have little chance if cars are going too fast. Speed cameras can play a part in slowing down traffic in hotspots, but they do not improve driving skills. There may be a case to be made for older drivers—and I put myself in that category, having being driving for over 30 years—to undertake a refresher driving course. The statistics show that we need to concentrate on young people, and I strongly support the Pass Plus Cymru initiative funded by the Welsh Assembly Government through local authorities, where young drivers can take a course for £40, as opposed to anywhere between £120 and £150. All these things will help to make our roads safer for drivers and pedestrians, but we need to monitor these schemes and ensure that they continue to be funded, because that is the only way in which we will make roads safer for everyone.

5.10 p.m.

Leanne Wood: I intend to focus my contribution on school transport, particularly on Plaid Cymru's amendment 3. We are all too aware—and they have been mentioned here already this afternoon—of the tragic deaths that have taken place in recent years on school transport. Our job in the Assembly is to ensure that there are no more such deaths.

At present, there is far too much discretion on the part of local authorities when awarding school transport contracts. All too often, they are awarded on the basis of cost, and quality and safety considerations do not have to feature. It is simply wrong that there is no uniform safety standard that all local authorities have to meet and it is not acceptable that, if you live in one area of Wales, you may have more confidence in your school transport system than if you lived in other parts of Wales.

There needs to be a complete overhaul of how school transport is procured and how

etholaeth i. Ys dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ddal ati i ddarparu cynlluniau addysgol megis cyrsiau medrusrwydd seiclo a Kerbcraft, sy'n dysgu plant sut y mae croesi'r ffordd yn ddiogel. Fodd bynnag, ni fydd fawr o obaith gan y plant os bydd y ceir yn mynd yn rhy gyflym. Mae gan y camerâu cyflymder eu rhan i'w chwarae i arafu traffig mewn mannau peryglus, ond nid ydynt yn gwella sgiliau gyrru. Efallai fod lle i yrwyr hŷn—ac yr wyf yn barnu fy mod innau'n perthyn i'r categori hwnnw, gan fy mod yn gyrru ers dros 30 o flynyddoedd—ddilyn cwrs gloywi i yrwyr. Dengys yr ystadegau fod angen inni ganolbwyntio ar bobl ifanc, ac yr wyf yn bleidiol iawn i gynllun Pass Plus Cymru a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r awdurdodau lleol, sy'n galluogi gyrrwyr ifanc i ddilyn cwrs am £40, yn hytrach na rhywbeth rhwng £120 a £150. Bydd yr holl bethau hyn yn helpu i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i yrwyr a cherddwyr, ond mae angen inni fonitro'r cynlluniau hyn a sicrhau y byddant yn dal i gael eu cyllido, gan mai dyna'r unig ffordd y gallwn wneud y ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Leanne Wood: Bwriadaf ganolbwyntio ar gludiant i'r ysgolion, yn enwedig gwelliant 3 Plaid Cymru. Gwyddom yn iawn—a soniwyd amdanynt yma eisoes y prynhawn yma—am y marwolaethau trasig a ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth gludo plant i'r ysgol. Ein lle ni yn y Cynulliad yw sicrhau na fydd rhagor o farwolaethau o'r fath eto.

Ar hyn o bryd mae gan yr awdurdodau lleol lawer gormod o ddisgresiwn wrth roi contractau cludiant ysgolion. Yn rhy aml, rhoddir hwy ar sail cost, heb ystyried ansawdd a diogelwch. Nid yw'n iawn nad oes safon diogelwch unffurf y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gydymffurfio â hi ac nid yw'n dderbyniol, os ydych yn byw mewn un rhan o Gymru, fod gennych fwy o hyder yn eich system cludiant i'r ysgol nag a fyddai gennych petaech yn byw mewn rhannau eraill o Gymru.

Mae angen ailwampio'n llwyr y modd y caiff cludiant i'r ysgol ei gaffael a'r modd y

contracts are awarded. The campaign group Belt Up School Kids is calling for each local authority to be required to carry out a written risk assessment. It points out that many children travel to school on modes of transport other than the school bus and that safety measures should be extended to those pupils too. BUSK has also suggested staggering school hours, which would reduce the need for all buses to be available at the same time, thereby reducing costs.

I am pleased to welcome to the Assembly Mr and Mrs Cunningham-Jones of Stuart's Campaign, which Alun Cairns has already mentioned this afternoon. Stuart's campaign has been calling for similar measures to those proposed by the Northern Ireland Assembly. In Northern Ireland, an additional £37 million has been allocated to make school bus journeys safer. They plan to end the practice of placing three children in two seats, they want to ensure that children are not forced to stand on school buses and they will upgrade their existing fleet of buses to provide seat belts. That is definitely the way forward.

Local authorities' approach to school bus safety is piecemeal and it is not uniform. Parents need to have the confidence that their child will be safe at all times when not in their care. Looking around at the state of some school buses today and knowing that not all drivers are Criminal-Records-Bureau-checked does not inspire confidence in parents and knowing about the terrible deaths of children that have taken place in recent years makes the situation for parents even more worrying. As the parent of a pre-school child, I am worried. It is up to us, as Assembly Members, to ensure today that no more lives are needlessly lost on school transport. I hope that all Members will support Plaid Cymru's amendment 3.

Val Lloyd: The Deputy Minister spoke of the targets already set for reducing the number of children killed or severely injured on the roads and their place in the road safety strategy for Wales. We would all support that, although I know that Members would agree that even one child in that situation is

rhoddir contractau. Mae'r grŵp ymgyrchu Belt Up School Kids yn galw am ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud asesiad risg ysgrifenedig. Noda fod llawer o blant yn teithio i'r ysgol ar ddulliau cludiant heblaw'r bws ysgol ac y dylid ymestyn mesurau diogelwch i'r disgyblion hynny hefyd. Mae BUSK hefyd wedi awgrymu y dylid amrywio oriau'r ysgolion, gan y byddai hynny'n golygu na fyddai angen pob bws ar yr un pryd, a byddai'n lleihau'r costau.

Mae'n bleser gennyf groesawu i'r Cynulliad Mr a Mrs Cunningham-Jones o Ymgyrch Stuart, y mae Alun Cairns eisoes wedi sôn amdanynt y prynhawn yma. Mae ymgyrch Stuart wedi bod yn galw am fesurau tebyg i'r rhai a gynigiwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon dyrannwyd £37 miliwn o arian ychwanegol i wneud teithiau bysiau'r ysgolion yn fwy diogel. Bwriadant roi terfyn ar yr arfer o roi tri o blant mewn dwy sedd, maent am sicrhau na chaiff plant eu gorfodi i sefyll ar fysiau ysgolion a byddant yn gwella'r fflyd bysiau sydd ganddynt ar hyn o bryd gan ddarparu gwregysau diogelwch. Yn sicr dyma'r ffordd ymlaen.

Tameidiog yn hytrach na chyson yw agwedd yr awdurdodau lleol at ddiogelwch bysiau ysgol. Mae angen i rieni deimlo'n hyderus y bydd eu plentyn yn ddiogel ar bob adeg pan nad yw dan eu gofal. Nid yw cyflwr rhai bysiau ysgol heddiw a'r ffaith nad yw pob gyrrwr wedi cael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn ennyn hyder ymhlith rhieni, ac o wybod am y marwolaethau ofnadwy sydd wedi digwydd i blant yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sefyllfa'n peri mwy byth o bryder i rieni. Fel rhiant i blentyn cyn oedran ysgol, yr wyf yn bryderus. Ein lle ni, fel Aelodau Cynulliad, yw sicrhau heddiw na chaiff rhagor o fywydau eu colli'n ddiangen ar fysiau ysgol. Gobeithiaf y bydd pob Aelod yn cefnogi gwelliant 3 Plaid Cymru.

Val Lloyd: Soniodd y Dirprwy Weinidog am y targedau a osodwyd eisoes ar gyfer gostwng nifer y plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd a'u rhan yn y strategaeth ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar gyfer Cymru. Byddai pawb yn cefnogi hynny, er y gwn y cytunai pob Aelod fod un plentyn yn y

too many.

There are many excellent examples of road safety initiatives in my constituency, as there are in all other constituencies, and the Safe Routes to School project has brought benefits to many children in my constituency, at Brynhyfryd Junior School and Birchgrove Junior School, for example. As well as ensuring that children can walk or cycle to school safely, the scheme can have a positive impact on their health and promote more active lifestyles.

Brynle indicated earlier that some schools have a 20 mph limit around them and I draw attention to such a limit that is in force on the road that fronts Pentrehafod School in my constituency, as this has had the effect of slowing traffic that used to speed along that stretch of road. It is a slightly downhill stretch and it connects to a main road, so you can see that it can also be used as a rat run. This is a huge achievement as research has shown that the risk of a child being involved in an accident has reduced by about two thirds where there are 20 mph zones.

The walking bus has already been alluded to and, recently, Cwm Primary School undertook this exercise and I hope that it will do it again. It was great fun and all enjoyed walking together. Many parents left the car at home, which greatly helped to relieve car congestion around the school gate, again reducing the risk of accidents.

Such worthwhile schemes must go hand in hand with educating drivers to ensure that they amend their driving practices, and I put myself in that category.

I particularly welcome the emphasis placed by the Wales transport strategy on driver behaviour issues. We need to do more to tackle the misuse of mobile phones, which I see every day, fatigue and driving under the influence of drink or drugs. One of the most important age groups to target is the young. We need to address their concept of speed on the roads.

sefyllfa honno'n ormod.

Mae llawer o enghreifftiau rhagorol o fentrau diogelwch y ffyrdd yn fy etholaeth, fel sydd ym mhob etholaeth arall, ac mae'r prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol wedi bod o fudd i lawer o blant yn fy etholaeth, yn Ysgol Iau Brynhyfryd ac Ysgol Iau Birchgrove, er enghraifft. Yn ogystal â sicrhau bod y plant yn gallu cerdded neu seiclo i'r ysgol yn ddiogel, gall y cynllun gael effaith lesol ar eu hiechyd a hybu ffyrdd mwy egniol o fyw.

Dyweddodd Brynle yn gynharach fod cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr o amgylch rhai ysgolion a thynnaf eich sylw at gyfyngiad o'r fath sydd mewn grym ar y ffordd sydd o flaen Ysgol Pentrehafod yn fy etholaeth, gan fod hyn wedi arafu traffig a arferai oryrru ar y rhan honno o'r ffordd. Mae rhywfaint o oriwaered yn y fan honno ac mae'n cysylltu â phriffordd, ac felly gallwch weld bod modd ei defnyddio fel llwybr osgoi traffig hefyd. Mae hyn yn gamp sylweddol gan fod ymchwil yn dangos bod y perygl y bydd plentyn yn cael damwain wedi gostwng tua dwy ran o dair lle y mae'r parthau 20 milltir yr awr.

Cyfeiriwyd eisoes at y bws cerdded ac yn ddiweddar, aeth Ysgol Gynradd y Cwm ati yn hyn o beth a gobeithiaf y bydd yn gwneud hynny eto. Yr oedd yn hwyl fawr a mwynhaodd pob un gerdded gyda'i gilydd. Gadawodd llawer o rieni eu ceir gartref, a bu hynny'n fodd i leihau'r tagfeydd o gwmpas clwyd yr ysgol, gan leihau'r perygl y byddai damweiniau unwaith yn rhagor.

Law yn llaw â'r cynlluniau clodwiw hyn, mae'n rhaid addysgu'r gyrwyr er mwyn sicrhau y byddant yn newid eu harferion gyrru, ac yr wyf yn fy nghynnwys fy hun ymhlith y gyrwyr hynny.

Croesawaf yn arbennig y pwyslais a roddir gan strategaeth drafnidiaeth Cymru ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad gyrwyr. Mae angen inni wneud mwy i fynd i'r afael â chamddefnyddio ffonau symudol, rhywbeth yr wyf yn ei weld bob dydd, blinder a gyrru dan ddylanwad diod neu gyffuriau. Un o'r grwpiau oedran pwysicaf i'w dargedu yw'r ifanc. Mae angen inni roi sylw i'w cysyniad

hwy o gyflymder ar y ffyrdd.

Targeted television campaigns and road safety issues are very effective in terms of changing people's opinions and behaviour. I am sure that we all remember the recent shocking images in the THINK! television campaigns, involving a child being hit by a speeding car and a young woman being injured by a drunk driver. I am sure that they have had a strong impact on their target audiences. However, we must all keep working to ensure that everyone, but children in particular, is safer on our roads.

Nick Bourne: This is an exceptionally important debate and I thank the Deputy Minister for her introduction. We support all the amendments, in answer to the point raised by Leanne Wood. I also pay particular thanks to the Cunningham-Jones's for the very determined campaign that they have mounted, and I hope that some good comes out of the dreadful tragic death of their son, Stuart.

On Safe Routes to School, I welcome what the Minister said about looking at extending such routes to where children are, for example, around playgrounds, parks and possibly some shopping centres and so on, which is extremely important. This should not just be in relation to schools. That is a very important point. Many councils throughout Wales have done very good work on that. Alun Cairns mentioned Vale of Glamorgan Council in particular, which won an award. I pay tribute to those councils.

On young drivers, to which Kirsty Williams in particular referred, I very much agree with her comments; indeed, Kirsty and I have been on campaigns together in relation to speed limits and young drivers in particular. We need to move away from this foolish yardstick of saying how many deaths and accidents have occurred at a certain spot. We need to look objectively at particular danger spots and state that they are dangerous areas and that we need a speed limit. We should not be sitting back and waiting for a fatality or a serious accident. That is not the right

Mae ymgyrchoedd teledu a materion diogelwch y ffyrdd wedi'u targedu yn effeithiol iawn o ran newid barn ac ymddygiad pobl. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn cofio'r delweddau brawychus yn ddiweddar yn yr ymgyrchoedd teledu THINK!, lle y mae plentyn ifanc yn cael ei daro gan gar sy'n goryrru a menyw ifanc yn cael ei hanafu gan yrrwr meddw. Yr wyf yn siŵr eu bod wedi cael effaith gref ar eu cynulleidfaoedd targed. Fodd bynnag, rhaid inni i gyd barhau i weithio i sicrhau bod pawb, ond yn enwedig plant, yn fwy diogel ar ein ffyrdd.

Nick Bourne: Mae hon yn ddadl eithriadol o bwysig a diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei chyflwyniad. Yr ydym yn cefnogi'r gwelliannau i gyd, mewn ymateb i'r pwynt a godwyd gan Leanne Wood. Diolchaf yn arbennig hefyd i'r Cunningham-Jonesiaid am yr ymgyrch hynod o benderfynol y maent wedi ei chynnal, a gobeithiaf y daw rhyw les o farwolaeth drasig, frawychus eu mab, Stuart.

O ran Llwybrau Diogel i'r Ysgol, croesawaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am ymestyn llwybrau o'r fath i'r mannau lle y mae plant, er enghraifft, o amgylch meysydd chwarae, parciau ac o bosibl rhai canolfannau siopa ac yn y blaen, sy'n hynod o bwysig. Ni ddylai hyn fod mewn cysylltiad ag ysgolion yn unig. Mae hynny'n bwynt pwysig iawn. Mae llawer o gynghorau ledled Cymru wedi gwneud gwaith da iawn ar hynny. Soniodd Alun Cairns am Gyngor Bro Morgannwg yn arbennig, a enillodd wobwr. Talaf deyrnged i'r cynghorau hynny.

O ran gyrwyr ifanc, y cyfeiriodd Kirsty Williams atynt yn arbennig, cytunaf yn llwyr â'i sylwadau; yn wir, mae Kirsty a minnau wedi bod ar ymgyrchoedd gyda'n gilydd yn ymwneud â chyfyngiadau cyflymder a gyrwyr ifanc yn arbennig. Mae angen inni symud oddi wrth y ffon fesur ffôl hon o ddweud faint o farwolaethau a damweiniau sydd wedi digwydd mewn man arbennig. Mae angen inni edrych yn wrthrychol ar rai llecynnau peryglus a dweud eu bod yn fannau peryglus a bod angen cyfyngiad cyflymder yno. Ni ddylem sefyll o'r neilltu gan

approach to take.

More generally, other countries, and even some parts of our own country and the UK, look at young drivers in a different way. In Northern Ireland, there is a probationary period for young drivers aged 17 upwards—for a year after they have passed their test, they can only drive cars at up to 45 mph. That has had some success. We should look at that and perhaps press the UK Government on it because it will make a difference. There is strong evidence that young people in particular, just after they have passed their test, are not capable of driving in the same way as they would after a few years' experience; they feel immortal at that young age, particularly when they have a powerful car. That is worthy of attention and I hope that the Minister takes it back to consider.

This has been an important debate; there clearly is consensus on the measures that are needed to tackle this. It is true to say that, in general, there has been a slight fall in death rates in Wales. However, we have plenty of ground to make up in terms of road safety issues, not just in relation to England and the rest of the UK, but internationally, where the death rates are falling quicker than in the UK. We must ask ourselves why that is the case. As the Minister rightly said, we cannot be complacent. We must look at international experience and see how we can succeed and drive things forward—no pun intended—in terms of decreasing these figures because, as has been said, but it bears being said again, every death is avoidable. We can bring these figures down and that is what we should seek to do.

Gwenda Thomas: As we have already heard, road safety impacts on us daily in so many different ways, whether in a vehicle or as pedestrians, which, as we have already heard, include children, who can be taught about road safety when they are as young as three or four years old. Indeed, when

ddisgwyl i rywun gael ei ladd neu ddisgwyl am ddamwain ddifrifol. Nid hynny yw'r dull iawn o weithredu.

Yn fwy cyffredinol, mae gwledydd eraill, a hyd yn oed rhai rhannau o'n gwlad ni a'r DU, yn edrych ar yrwyr ifanc mewn ffordd wahanol. Yng Ngogledd Iwerddon, ceir cyfnod prawf i yrwyr ifanc sy'n 17 oed neu'n hŷn—am flwyddyn ar ôl iddynt basio eu prawf, dim ond hyd at 45 mya y cânt yrru ceir. Mae hynny wedi esgor ar beth llwyddiant. Dylem edrych ar hynny a phwyso ar Lywodraeth y DU efallai ynglŷn â hynny oherwydd bydd yn gwneud gwahaniaeth. Mae tystiolaeth gref nad yw pobl ifanc yn arbennig, yn fuan ar ôl iddynt basio eu prawf, yn gallu gyrru yn yr un ffordd ag y byddent ar ôl rhai blynyddoedd o brofiad; maent yn teimlo'n anfarwol yn yr oedran ifanc hwnnw, yn enwedig pan fydd ganddynt gar pwerus. Mae hynny'n haeddu sylw a gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn mynd ag ef yn ôl i'w ystyried.

Mae hon wedi bod yn ddadl bwysig; mae'n amlwg bod consensws o ran y mesurau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hyn. Mae'n wir dweud, yn gyffredinol, fod gostyngiad bach wedi bod yng nghyfraddau'r marwolaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym lawer o waith gwella o safbwynt materion diogelwch ar y ffyrdd, nid dim ond mewn perthynas â Lloegr a gweddill y DU, ond yn rhyngwladol, lle y mae cyfraddau'r marwolaethau yn disgyn yn gyflymach nag yn y DU. Rhaid inni holi ein hunain pam mae hynny'n digwydd. Fel y dywedodd y Gweinidog yn hollol gywir, ni allwn fod yn hunanfodlon. Rhaid inni edrych ar brofiad rhyngwladol a gweld sut y gallwn lwyddo a gyrru ymlaen—anfwriadol oedd y gair mwys—o ran gostwng y ffigurau oherwydd, fel y dywedwyd, ond mae'n werth ei ddweud eto, mae modd osgoi pob marwolaeth. Gallwn ostwng y ffigurau hyn a dyna'r hyn y dylem geisio'i wneud.

